# Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 251

Medi 2002

**PAPUR BRO** GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, **TREFEURIG A'R BORTH**


# Gwreiddiau cynhanesyddol Penrhyn-coch

**Mae archaeolegwyr sydd wedi ymchwilio i gaeau Plas Gogerddan, ger Penrhyn-coch, wedi dod o hyd i wasgariadau o offer fflint cynhanesyddol sy'n dystiolaeth bod pobl wedi byw yma am dros 8,000 o flynyddoedd.** Daw'r **darganfyddion hynny o Oes Ganol y Cerrig (Mesolithig), Oes Newydd y Cerrig (Neolithig) a'r Oes Efydd ac yn eu plith mae pennau saethau, darn o fwyell garreg, ac offer domestig.**

Gyda chaniatâd caredig y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) ym Mhlas Gogerddan bu Toby Driver, (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Aberystwyth) a Rebecca Charnock - y ddau o Salem. Penrhyn-coch - yn cerdded y caeau o'i eiddo a gawsai eu haredig.

Er bod offer cynhanesyddol i'w cael yn gyffredin mewn caeau sydd wedi'u haredig mewn rhannau eraill o Gymru, prin yw'r darganfyddiadau yng Ngheredigion. Mae'r olion archaeolegol yn y cwm o amgylch Plas Gogerddan eisoes yn hysbys; uwchlaw'r cwm mae bryngaer, sef yr Hen Gaer, o'r Oes Haearn, a chloddiwyd mynwent bwysig ger IGER ym 1986. Daeth y cloddio hwnnw o hyd i gladdiadau cynhanesyddol, beddrodau canoloesol cynnar, a phydew Neolithig bas ac ynddo ronynnau grawn a ffrwythau rhuddedig. Dangosai'r olion hynny fod cnydau wedi'u tyfu i'r gorllewin o Benrhyn-coch bron 6,000 o flynyddoedd yn ôl.

Mae Toby a Rebecca wedi dod o hyd i f y na hanner cant o ddarnau o fflint cynhanesyddol. 'Creiddiau **filint'** yw Uawer o'r darganfÿddion, a'r rheiny wedi'u gwneud o fân gerrig fflint o'r traeth ac wedi'u defnyddio i gynhyrchu Uafnau bach miniog ar gyfer torri a chrafu. Yn y cyfnod cynhanesyddol, yr oedd creiddiau fflint fel rhyw fath o gyllell amlbwrpas, a gellid gwneud Uu o lafnau newydd o'r craidd cyn iddo gael ei ddihysbyddu.

Craidd bach a llafn, sy'n nodweddiadol o offer helwyr-gasglwyr Mesolithig o'r cyfnod tua 6,500CC, yw'r darganfyddion hynaf. Er ei bod hi eisoes yn hysbys i wersyll helwyr-gasglwyr fodoli ger porthladd Aberystwyth, mae'r darganfyddion newydd hyn yn dangos bod pobl wedi byw ar hyd Dyffryn Clarach i fyny hyd at Blas Gogerddan.


Mae'n f y na thebyg bod y mwyafrif o'r darganfyddion eraill yn dyddio o'r Oes Neolithig a'r Oes Eíydd. Darganfyddiad cyffrous a wnaed mewn caeau ger pentref Penrhyn-coch oedd dau ben saeth o'r cyfnod Neolithig Diweddar (tua 3000CC - 2500CC) a oedd yn eithaf gwahanol i ffurf pennau saethau o'r Oes Efydd. Yn lle bod â phwynt, yr oedd iddynt ymyl dorri wastad. Credir iddynt gael eu defnyddio i hela adar wrth iddynt hedfan.




Adeiladau IGER ym Mhlas Gogerddan, ger Penrhyn-coch, gyda safle mynwent gynhanesyddol yn y cae trionglog wrth ochr y ffordd o Bow Street i Gelli Angharad. Drwy archwilio fflintiau o'r caeau a gafodd eu haredig, mae archaeolegwyr wedi dod o hyd i olion anheddu cynhanesyddol yr holl ffordd ar hyd y dyffryn hwn. (Hawlfraint y Goron, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru)

Mae'r dyffryn i'r gorllewin o IGER hefyd yn cynnwys tomenni claddu o'r Oes Efydd. Cawsant eu haredig yn wastad ac ni ellid eu gweld ar lawr gwlad. Darganfu'r Comisiwn Brenhinol un ohonynt drwy graffu ar awyrluniau a dynnwyd yn ystod haf poeth 1995. Daeth i'r golwg ar ffurf cylch tywyll ynghanol y cnydau a oedd wrthi'n aeddfedu. Drwy gerdded ar draws y safle cafwyd bod yno ddau fflint arbennig, sef offeryn llaw bach a chain a llafn dorri daclus a drimiwyd o fflint du o ánsawdd da - peth sy'n brin yn y rhan hon o'r Canolbarth. Efallai i'r ddau fflint fod yn rhan o'r nwyddau gwreiddiol ym meddrod y domen gladdu ac i ganrifoedd o aredig aflonyddu arnynt a'u codi i'r wyneb.

Mae canlyniadau manwl y darganfyddion cynhanesyddol hyn wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar yn Studia Celtica, cyfnodolyn y Bwrdd Gwybodau Celtaidd, ar gyfer 2001. Mae'r fflintiau a ddarganfuwyd wedi'u cyflwyno i Amgueddfa Ceredigion, Aberystwyth.



Plas Gogerddan. Dau ben saeth o'r cyfnod Neolithig Diweddar (tua 3000 CC - 2500 CC). Mae'r ddau ohonynt yn **ffurfiau** ar ben saeth rhyfedd ac iddo ymyl dorri hir a gwastad yn hytrach na phwynt. Dim ond darn o'r un isaf sydd wedi goroesi.



Plas Gogerddan. Pedwar craidd a wnaed o fân gerrig fflint a gasglwyd, mae'n debyg, o'r traeth neu o raean afon ac a ddefnyddiwyd i gynhyrchu llafnau fflint ym Mhlas Gogerddan. Efallai fod y craidd trionglog ar y gwaelod ar y dde yn dyddio B'r Oes Fesolithig (tua 6500 CC), pryd yr oedd helwyr-gasglwyr yn crwydro Cymru.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 251 | Medi 2002


**SWYDDOGIOIM**

**GOLYGYDD**
Ceris Gruffudd
Rhos Helyg
23 Maesyrefail
Penrhyn-coch
©828017
g^ Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD**
lona Bailey

**CYSODYDD**
Sion llar

**CADEIRYDD**
Yr Athro Gruffydd Aled Williams
Brynafon
**Dolau**
•H[1] 820664

IS-GADEIRYDD
Mrs Meinir Edwards
Penpompren
Llandre
S 820467

**YSGRIFENNYDD**
Anwen Pierce
46 Bryncastell
Bow Street
© 828337

**TRYSORYDD**
David England
Pantyglyn
Llandre
© 828693

**LLUNIAU**
Peter Henley
Dôleglur
Bow Street
©828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce, Meinir Edwards a Jamie Medhurst.

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont.

**DEUNYDD I'W GYNNWYS**
Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Telerau hysbysebu y rhifyn

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

**Cysylltwch â'r trysorydd.**

**Y TINCER DRWY'R POST**
Pris gyrru'r papur drwy'r post am flwyddyn (10 rhifyn) - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Mrs Gwen Lloyd Jones, Lasynys, 3 Brynmeillion, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion. SY24 5BP
© 828655

Y TINCER **AR DÂP**
Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street
© 828555.

**CAMERAR TINCER**
Cofiwch am gamera newydd defnyddiol Y Tincer. Mae'n un bach hwylus - Konica - a bydd ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio G yl Ddewi neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, BowStreet (© 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**GOHEBYODION LLEOL**

**ABER-FFRWD A** CHWMRHEIDOL
Mrs Betl Daniel
Glyn Rheidol
©880 691

**Y BORTH**
Heddwen Pugh-Evans
5 Heol Clarach
©871 895

**BOW STREET**
Haf ap Robert
103 Bryncastell
Mrs Joyce Bowen
35 Tregerddan
© 820 330
Mrs Elen Evans
Erw Las
© 828 346

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis
Rheidol Banc
Blaengeuffordd
© 880 645

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans
Dôlwerdd
©871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees
Seintwar
© 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb
Penpistyll
Cwmbrwyno
© 880 228

**LLANDRE**
Mrs Lena Davies
Bronallt
©820 144

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James
Gilwern
© 820695

**TREFEURIG**
Mrs Mai Hughes
Trawsnant
Cwmerfyn
© 828 750
Mrs Edwina Davies
Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau
© 828 296

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mehefin**

**£15 (Rhif 92 ) Dafydd Thomas, Bysaleg, Penrhyn-coch**

**£10 (Rhif 114 ) Gwynfor Jones, Llwyn lorwerth, Capel Bangor**

**£5 ( Rhif 102) Siân Spink, 1 Cefn Melindwr, Capel Bangor**

**Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts,**
**4 Brynmeiltion Bow Street, os am fod yn aelod.**


CAPEL YR ANNIBYNWYR
SOAR, LLANBADARN FAWR
**Dydd Sul 13 Hydref**

**Cyfarfodydd dathlu daucanmlwyddiant yr Achos**
**Bore am 10**
**Oedfa undebol yr ofalaeth yng ngofal y Gweinldog - y Parchg Richard Lewis (gweinyddir yr Cymundeb)**

**Prynhawn am 2.30 'Hanes yr achos' - cyflwyniad ar lafar ac ar gân gan blant ac oedolion Soar.**
**Croeso i bawb**


# DYDDIADUR YTINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD G0HEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **HYDREF** 3 A **HYDREF** 4 I'R GOLYGYDD.
DYDDIAD CYHOEDDI **HYDREF 17**

**MEDI** 20 lNos Wener Cwrdd diolchgarwch yn Salem Coedgruffydd am 7.00. Pregethwr gwadd: Y Parchg Gwyn Morgan, Llanrhystud

**MEDI** 20 Prynhawn a nos Wener Cwmni Mega yn cyflwyno 'Perthyn' (Michael Povey) yn Theatr y Werin am 1.00 a 7.30

MEDI 21 Dydd Sadwrn Ffrindiau Cartref Tregerddan Te Moethus yn y Cartref am 2.30 o'r gloch. Croeso i bawb.

**MEDI** 25 Nos Fercher Cyfarfod diolchgarwch Horeb am 7.00. Pregethwr gwadd: Y Parchg John Livingstone

**MEDI 26** Nos lau Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn - Dr Angharad Price yn sôn am ei chyfrol enillodd y Fedal Ryddiaith yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**MEDI** 29 Nos Sul Côr Merched Aberystwyth yn cyflwyno noson gerddorol am 8.00 yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn am 8.00.

**HYDREF** 2 Nos Fercher Cwrdd diolchgarwch Eglwys Sant loan, Penrhyn-coch am 7.00

**HYDREF** 2 Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Cangen Bro Dafydd Plaid Cymru yn Neuadd y Penrhyn am 7.30

**HYDREF** 4 Nos Wener Noson gymdeithasol yng nghwmni Aled Davies, Aled Lewis Evans a Carina yn Neuadd Rhydypennau am 7.30 Mynediad: £2

HYDREF 7 Nos Lun Pwyllgor i drafod Ffair Nadolig y Tincer yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30. Sylwer ar y newid dyddiad

HYDREF 8 Nos Fawrth Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Fel hen win' (Valmai Jones) yn Theatr y Werin am 7.30

**HYDREF 10** Nos lau Cwrdd Diolchgarwch Capel y Gerlan am 7pm gyda John Pinion Jones, Llanidloes. Ceir bwffe i ddilyn.

**HYDREF 13** Dydd Sul Cyfarfodydd dathlu daucanmlwyddiant yr Achos - Soar Llanbadarn Fawr - gw. hysbyseb

**HYDREF 15-16** Nosweithiau Mawrth a Mercher Cwmni Theatr Gwynedd Y Llwyfan Cenedlaethol yn cyflwyno Blodeuwedd (Saunders Lewis) yn Theatr y Werin am 7.30.

**HYDREF** 16 Dydd Mercher Gwasanaethau diolchgarwch Capel Pen-llwyn am 2 a 7 o'r gloch. Pregethwr gwadd: Y Parchg R W Jones.

**HYDREF 17** Nos lau Lyn Lewis Dafis - Tafodieithoedd' Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF** 18 lNos Wener Gwyn Jones, Pen-y-garn yng Nghymdeithas Lenyddol y Garn

**HYDREF** 27 Nos Wener Cwrdd diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes, Cwmrheidol am 7.00. Pregethwr gwadd: Y Parchg Felix Aubel, Aberaeron

**TACHWEDD 2** G yl Cyhoeddi G yl Gerdd Dant Aberystwyth a'r cylch

**TACHWEDD** 15 Nos Wener Noson goffi Nadolig y Tincer yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch

**RHAGFYR 4** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol Sioe Capel Bangor a'r cylch yn festri'r Eglwys am 7.30. Croeso i bawb.


**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH**
**BWRDD YR IAITH GYMRAEG**
**I'R CYHOEDDIAD HWN**


Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...

**0845 6076070**

**Uun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm**
cyfradd galwadau lleol

w^ 'mi"[r.<u-i.ntl) com www.bwrdd-yr-unli.or^ uk wwwp.tpur.ui-hro.ton;

# The Sound of Music



Carwyn a Bethan Jenkins gyda Margaret Williams yn y 'Sound of music'

Pan gyrhaeddais i adref ar gyfer gwyliau'r haf, prin feddyliais i y byddwn yn treulio bob nos am chwech wythnos yn Theatr y Werin. 'Roedd fy mrawd bach, Meurig, wedi ennill rhan Friedrich Von Trapp yn y sioe, ac 'roedd mam wedi penderfynu canu fel un 0 leianod y corws er mwyn cadw Uygad arno! Nawr, mae'n gas gen 1 "The Sound of Music" - dydw i ddim yn hoff o'r gerddoriaeth, ac mae'n stori llawer rhy driogfelys i mi, ond pan ddywedodd Peter Golding, y Cyfarwyddwr Cerdd, fod angen mwy o leianod i ganu, ac yn enwedig mwy o altos, penderfynais i ymuno efo mam er mwyn cadw cwmni iddi. Y syniad oedd inni ond i fynd pan oedd Meurig ar y llwyfan ('roedd sawl 'grwp' o blant, yn rhannu rhannau teulu Von Trapp drwy'r hai), ond cyn bo hir, dyma fí a mam yn ennill rhannau - mam yn Chwaer Bertha, a minnau yn Chwaer Margaretta, a hefyd yn Fraulein Schweiger, y gantores sy'n ennill yr ail wobr yn 'Eisteddfod' Salzburg, ac yn gorfod bod yn y theatr bron bob nos.

Er mor flinedig oedd yr holl beth, ac er fod tymherau pawb yn dechrau mynd yn fregus erbyn y diwedd, mi roedd yn brofiad arbennig iawn. 'Roedd pob un o'r cast proffesiynol - gan gynnwys Margaret Williams, seren S4C, a Glyn Kerslake, seren y 'West End' - yn hawddgar ac yn garedig tu hwnt i ni'r amaturiaid. Treuliodd Peter Edbrook (Uncle Max) y rhediad yn ein diddanu efo jociau, ac yn helpu ni oll efo 'wrinldes' bach a 'tips of the trade.' Peth anhygoel yw gweld sioe yn mynd o'r ymarferion i berfformiad coeth ar y Uwyfan, er fod ambell i hiccup, fel y Capten a Maria mewn pylau o chwerthin wrth iddyn nhw glywed dwy fenyw eitha byddar yn rhes flaen y theatr yn datgan sylwebaeth di-dor! Ond adwaith y gynulleidfa yw prawf sioe dda, ac o weld y theatr yn Uawn bron bob nos, medraf hyderu fod y sioe yn lwyddiant mawr. Roedd y profiad o fod yn "The Sound of Music" yn un hir a blinedig, ond mi fwynheais i, Meurig a mam hi yn fawr iawn.

*Bethan JenMns*

**Wedi iddi basio'i harholiadau Meistr Astudiaethau (MSt.) yn Rhydychen gydag anrhydedd, enillodd Bethan Jenkins, Bow Street Ysgoloriaeth T.H. Parry-Williams yn y Ganolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd dros yr haf. Ar gyfer yr ysgoloriaeth, mae'n gweithio fel cynorthwy-ydd ymchwil i Brosiect Iolo Morganwg, yn darllen hen gylchgronau a newyddiaduron o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg er mwyn darganfod unrhyw lythyron, erthyglau neu farddoniaeth gan Iolo Morganwg. Mae hefyd newydd ennìll grant o'r AHRB er mwyn parhau i astudio, ac ym mis Hydref, mi fydd hi'n dychwelyd i Rydychen i ddechrau ar ei Doethuriaeth, ar Lenorion Eingl-Gymraeg y Ddeunawfed Ganrif. (Gol.)**

# TANNAU GER Y TONNAU

**Yr yl Cerdd Dant yn ôl yn Aber**

Fe fydd tannau'r delyn yn gymysg â miwsig y môr wrth i'r yl Cerdd Dant ddychwelyd i dref glan môr Aberystwyth. Fe fydd G yl Cerdd Dant Aberystwyth a'r Cylch 2003 yn cael ei chynnal yn y dref ar y laf o Dachwedd. Safle'r yl fydd Canolían y Celfyddydau ar riw Pen-glais.

Fe gynhaliwyd yr Wyl yn Aberystwyth ddiwethaf yn ôl ym 1997 a chafwyd gwyl lwyddiannus iawn bryd hynny. Y gobaith yw y bydd yr Wyl flwyddyn nesaf yn well fyth ac yn manteisio ar gyfleusterau newydd Canolfan y Celfyddydau. Mae'r Ganolfan wedi bod yn rhan o gynllun datblygu gwerth 4 miliwn o bunnoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae dychweliad yr yl Cerdd Dant i Aberystwyth eisoes wedi cael ei groesawu gan Drefnydd yr Wyl, Dewijones.

"Mae aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn hyderus y bydd croeso a chefnogaeth trigolion Aberystwyth a'r cylch yr un mor wresog a brwd i yl 2003 ag yr oedd i'r yl ar ei hymweliad olaf a'r ardal lai na phum mlynedd yn 61," meddai Dewi Jones.

Gobaith y trefnwyr yw elwa ar broflad tîm yr yl yn 1997 ac ar yr un pryd croesawu gwaed newydd i wyntyllu syniadau ffres.

"Profiad hyfryd yw gweld nifer o'r gweithwyr profiadol a fu'n ysgwyddo cyfrifoldebau'r Wyl yn 1997 yn cydweithio'n hapus gyda tho iau o gefnogwyr llawn egni a syniadau ffres," meddai Eleri Roberts, Comins-coch, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith."Mae'r gwaith o baratoi'r rhestr testunau ar fin cael ei gwblhau, ac eisoes cyflwynwyd rhai cystadlaethau newydd a diddorol."

Bydd yr yl Gyhoeddi yn cael ei chynnal ar yr 2il o Dachwedd eleni (2002) ac yn cynnwys cyfres o ddigwyddiadau i bob oed, gan gynnwys Twmpath i blant yn ystod y dydd gyda Bwffe a Noson Lawen yn yr hwyr.

Penderfynwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Tincer eleni, â'r papur wedi cyrraedd ei 250fed rhifyn ei bod yn bryd i ni newid y ffordd yr ydym yn ei baratoi, gan ddefnyddio'r dechnoleg newydd i wella ei ddíwyg. Rwy'n siwr y byddwch, fel darllenwyr, yn cytuno i ni wneud dewis doeth.

Sion llar, Aberystwyth, fydd yn ei ddylunio eleni, ac fel y gwelwch golyga y newid dull wellhâd enfawr yng ngolwg y papur. Gobeithiwn barhau i ddiwygio ei gynnwys yn ystod y flwyddyn. Cofiwch, fodd bynnag, mai eich papur CHI yw y Tincer - pryd ddaru chi yrru pwt o newyddion neu lun am ddigwyddiad yn ein hardal i'r papur ddiwethaf?

Gellir gwnued hyn trwy eich gohebydd lleol neu yn syth i'r Golygydd - a toes dim rhaid i chi symud o'r t os ydych â'r gallu i yrru e-bost. Gellir hefyd yrru llun o gamera digidol trwy e-bost i'r Golygydd (Rhoshelyg@btinternet.com).

Mae'r dull newydd yn golygu fod yn rhaid glynu i'r dyddiadau cau ac ni fydd modd derbyn deunydd wedi'r dyddiad cau. Mae hefyd yn golygu cynnydd yn y costau. Penderfynwyd na fyddid yn codi ei bris. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd yn y gorffennol - yn unigolion, cynghorau a mudiadau a bydd y Trysorydd yn parhau i groesawu cyfraniadau. Gresynwyd yn y Cyfarfod Blynyddol na chafwyd cyfraniad gan un Cyngor Bro yn y dalgylch y llynedd -Cyngor Cymdeithas Trefeurig. Bydd gan y Tincer noson goffi Nadolig ym Mhenrhyn-coch nos Wener Tachwedd 15, a byddwn hefyd yn gwerthu eitemau mewn sêl cist car er budd y papur. Cysylltwch â'r swyddogion os oes gennych ddeunydd i'w waredu.

Daeth llawer tro ar fyd ers sefydlu y papur ym 1977- beth am ein cynorthwyo i fynd â'r papur ymlaen trwy gyfrannu pwt? (Gol.)

# G yl Lyfrau Aberystwyth

11-12 Hydref 2002

**NosWener, 11 Hydref**
**Adeilad Merched y Wawr**
7.30 Lansiad cyfrol newydd Aled Jones Williams
OERFEL GAEAF DUW Cadeirydd: Pryderi Llwyd Jones

**DyddSadwrn, 12 Hydref**
**Adeilad Merched y Wawr**
(Pris mynediad: £2 y sesiwn neu £5 y dydd)
11.00 Dafydd Glyn Jones: sgwrs am ei gyfrol AGORIAD YR OES
Cadeirydd: Dafydd Morgan Lewis
1.30 Elin ap Hywel yn trafod y gyfrol FFINIAU/BORDERS gyda Francesca Rhydderch
2.30 Agor y dyddiadur: sgwrs gyda Meleri Wyn James.
Cadeirydd: Lowri Davies

**NosSadwrn, 12 Hydref**
7.30 Gwesty Llety Parc, Aberystwyth
Cinio yng nghwmni'r prifardd a'r nofelydd Gwynn ap Gwilym
Tocynnau: £14

Croeso cynnes i bawb i ddigwyddiadau'r wyl.

Am fanylion pellach ffoniwch 01970 624534 neu e-bostiwch elwyn.jones@cllc.org.uk

Noddir yr wyl gan yr Academi.

# Y BORTH



Bethan Evans

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Bethan Evans, Perllan Hen, Glanwern ar ennill gradd BA (Anrhydedd) Astudiaethau'r Cyfryngau & Diwylliant ym Mhrifysgol Nottingham Trent. Ar hyn o bryd mae Bethan yn gweithio mewn stiwdio yn Llundain ac yn gobeithio mynd ymlaen i weithio fel ymchwilydd ym myd teledu.

## Sioe Ddawns

Unwaith eto eleni bu nifer o blant a phobl ifanc Y Borth yn perfformio yn Sioe Haf Ysgol Ddawns Canolfan y Celíyddydau, Aberystwyth. Caf yd gwledd o ddawns dros benwythnos cyfan o'r 27 i'r 30 Mehefln. Llongyfarchiadau i chi i gyd ar eich gwaith caled.

## Ysgol Feithrin

Bu plant Ysgol Feithrin Y Borth yn brysur iawn fore Gwener 19 Gorffennaf yn beicio o amgyich Neuadd yr Ysgol Feithrin mewn ras noddedig. Da iawn chi am eich gwaith caled i godi arian i gronfâ'r Cylch.



Beicwyr bach y Borth

## Ffair Elusennau

Cynhaliwyd Ffair Elusennau Haf yn Neuadd Gymunedol y Borth ar Awst 7 pan gymerwyd rhan gan sawl Elusen lleol gan gynnwys y Sgowtiaid, Cymdeithas Rhieni a Phlant, Clwb Croeso, Eglwys Sant Mathew, Seíydliad y Merched, RNLI, Bywyd Gwyllt Dyfed, Grwp Mosaig y Borth a Chlwb yr Henoed. Diolchir yn gynnes i'r Trefhydd, Mr Vernon Ball, ac i Noddwraig y Ffair, Mrs Moira Smith.

Gobeithir cynnal Ffair Nadolig eto eleni yn gynnar ym mis Rhagfyr yn Neuadd y Borth. Os oes gennych ddiddordeb cymryd stondin, cysylltwch â Mr Vernon Ball ar 871 429.

## Llongyfarchiadau


Llongyfarchiadau i Emyr Pugh-Evans, 5 Heol Clarach, ar ei benodiad yn Bennaeth Ysgol Gymunedol Penrhyn-coch. Wedi chwe mlynedd hapus a llwyddiannus yn Iianfihangel-y-Creuddyn bydd Emyr yn cymryd yr awennau yn ysgol y Penrhyn ddechrau mis Medi.

## Eglwys Sant Mathew

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn Eglwys Sant Mathew ddydd Sul, 22 Medi 2002 am 11.15 y bore. Y pregethwr fydd y Ficer, y Parch David Francis. Dilynir y gwasanaeth gyda Swper Diolchgarwch yng Ngwesty'r Hafren am 6 o'r gloch y nos, pan fydd cyfle i ífarwelio â'r Parch David Francis a fydd yn ymadael â'r Borth yn ystod yr wythnos ganlynol i gymryd swydd newydd fel Deon Gwlad yn ardal Llangadfan a Llanerfyl yn Esgobaeth Llanelwy. Am fanylion pellach gellir cysylltu â Mrs Susan James, Warden yr Eglwys, ar 871 355.

## Cymorth Cristnogol

Codwyd y swm anrhydeddus o £526.74 at Gymorth Cristnogol eleni wedi ymdrech deg gan Eglwysi'r Borth, gan gynnwys Eglwys Sant Mathew, Capel y Gerlan ac Eglwys Santes Fair, Seren y Môr. Codwyd £354.35 mewn Bore Coffi yn y Gerlan ar y 3ydd o Ebrill a daeth y gweddill o'r Gwasanaeth i Ddechrau'r Flwyddyn yng Nghapel y Gerlan (£45), Gwasanaeth G yl Ddewi a chasgliad ychwanegol yn Eglwys Sant Mathew (£52.34) a Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghapel y Gerlan ar 14 Mehefln (£75.05). Diolch i bawb a gyfrannodd eu hamser, eu cymorth a'u harian at yr achos).



Dwy o ddawnswyr ieuengaf Y Borth oedd Megan Trubshaw, Neuadd Wen a Mared Emyr, 5 Heol Clarach

## Sefydliad Y Merched Y Borth

**Gwibdeithiau.** Ar ddydd Mercher 19 Mehefln, ein cyfarfod olaf am yr haf, mwynhawyd taith i Ystrad Fflur ble y cawsom ein tywys o amgylch adfeilion hynafol yr Abaty gan y Parchg Ddr David Williams. Clowyd prynhawn anarferol a diddorol dros ben gyda the yn y Llew Du, Pontrhydfendigaid.

Yn ystod wythnos o dywydd gaeafol, cawsom heulwen annisgwyl ar ein taith i Erddi Dwr Stapely, yn Sir Gaer, ar ddydd Mercher 3 Gorffennaf. Cawsom gwmni aelodau SYM Taliesin ar y daith hon a thorrwyd y siwrnai ar gyfer coffi ac ychydig o siopa yn Yr Hen Orsaf, yn y Trallwng. Bu'r diwrnod yn Uwyddiant mawr gan fod Stapely yn cynnig rhywbeth i bawb o'r T Trofannol i'r Tý Adar, yr Acwariwm i'r Ganolfan Bysgota a'r Gerddi Arddangos.

Diolch o galon i Jo Jones, Llywydd y Borth, am drefnu'r ddwy daith arbennig yma.

## Bore Coffl

Cynhaliwyd ein Bore Coffi Haf yn y Neuadd Gymunedol ar ddydd Mercher 17 Gorffennaf gyda stondin Gacennau, Tombola, Bric-a-Brac, Llyfrau a Raffl. Diolch yn fawr i bawb a helpodd i godi £280.80.

## Llwyddiant

Iiongyfarchiadau mawr i griw SYM a gipiodd y drydedd wobr yng Ngharnifal y Borth ar ddydd Gwener 2 Awst gyda'u portread o "Last of the Summer Wine". Diolch yn arbennig i'n trefnydd brwdftydig, Margaret Hudson, ac i Rick Hollis a Richard Renshaw am yrru'r Land Rover a'r car to agored. Cafodd pawb ddiwrnod wrth eu bodd.

## Sioe

Mwynhaodd aelodau SYM y Borth eu taith arferol i Ganolfan y Celfyddydau, Aberystwyth i wrando ar y sioe haf. Eleni caf yd blas mawr ar "The Sound of Music", noson ardderchog.

## RNLI Y BORTH Casglu

'Roedd wythnos lawn olaf Gorffennaf yn wythnos y Bâd Achub yma yn y Borth. Diolch o galon i'n casglwyr dyfal yn y Borth, Bow Street, Llandre, Taliesin, Tal-y-bont a Thre'r-ddôl a gasglodd £1,043.68 ar gyfer yr RNLI. Cododd Criw y Bâd Achub £355.11 arall ar eu taith flynyddol o amgylch y Clybiau Carafannau a'r tafarnau lleol. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

## Noson Gerddorol

Cafwyd gwledd o gerddoriaeth gyda Chôr Meibion Aberystwyth yn Neuadd Gymunedol y Borth ar nos Iau 25 Goríennaf, a gododd £415 i goffrau'r RNLI. Yr arweinydd oedd Margaret Maddock a'r cyfeilydd oedd David Evans. Yr unawdwyr talentog oedd Jason Lewis (Trwmped) a Tirion Lewis (Cantores), gyda'i mam Nia Lewis yn cyfeilio. Llywyddwyd y noson gan Gadeirydd Urdd y Bâd Achub, Elizabeth Evans. Talwyd teyrnged arbennig i Miss Muriel Kind, aelod hynaf ac Is-Lywydd am

# LLANDRE

Oes RNLI y Borth, a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 92 ar y diwrnod hwnnw. Yn ddiweddar cyflwynodd Muriel fainc i'r RNLI sydd wedi ei gosod gerllaw gorsaf y Bâd Achub. Cyflwynwyd y diolchiadau ar ddiwedd y noson gan y Parchg Ddr David Williams. Hoffem hefyd ddiolch i Margaret Griffiths yr Hafren am drefnu Uuniaeth i'r Côr ar ôl y Cyngerdd.

## Coroni

Caf yd uchafbwynt arbennig i gloi wythnos brysur gyda choroni Brenhines Bâd Achub y Borth ar ddydd Sul 27 Gorffennaf. Y Frenhines eleni yw Hannah Crute, sy'n 10 oed. Aelodau ei gosgordd oedd Michaela Bailey, Anwen Davies, Sian Ellis, Shanice Huq a Megan Trubshaw. Cafodd Hannah ei choroni gan Mrs Jean Cowell, Llywydd Urdd y Bâd Achub. Diolch yn fawr i Ddawnswyr Llinell y Borth a ddaeth i ddiddannu pawb ar brynhawn heulog braf.

## Dosbarthu'r Tincer

Gair i gydnabod yn ddiolchgar waith Aled Jenkins yn dosbarthu'r Tincer ym mhen ucha'r pentref, a chyn hynny Dirk Lloyd. Mae Beti Lewis yn garedig iawn yn ymgymryd â'r gwaith ar hyn o bryd.

Diolch hefyd i Derek Davies am gymryd drosodd y gwaith dosbarthu ar y Stryd Fawr yn dilyn marwolaeth annisgwyl Clive Jones.

## Cymdeithas Gymraeg Y Borth A'r Cylch

Roedd y tywydd ym mis Gorffennaf eleni mor ddiflas ag i ddigalonni pob un ohonom, heb sôn am y rhai anffodus oedd yn gyfrifol am drefnu gwibdeithiau'r haf. Er hynny, yr ydym erbyn hyn yn hen gyfarwydd â'r gwynt a'r glaw ac ni allai dim effeithio ar ein mwynhad 0 wibdaith y Gymdeithas Gymraeg i'r Ardd Fotaneg Genedlaethol, Plas Middleton, ddydd Gwener 21 Mehefin.

Bydd aros am goffi bob amser yn rhan or mwynhad, wrth gwrs, a chawsom goffi a chroeso yng Nghaffl'r Sosban yn lianbedr Pont StefFan. Caf yd dwy awr wedyn yn Iianymddyfh, lle 'roedd cyfle i edrych o gwmpas yr hen dref, gyda'i Chastell a'i Chanolfan Ymwelwyr, ac 1 gael pryd o f yd ysgafh. Treuliwyd y prynhawn yn yr Ardd Fotaneg, ac er gwaetha'r glaw didostur, edmygwyd yn fawr y llynnoedd a'r lilìau dwr, y rhodfeydd a'r Gromen eníawr. Ar y ffordd adref cafwyd cinio blasus yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen. Ar ran pawb, diolchodd Mrs Tegwen Pryse, Iiywydd y Gymdeithas, i Iünos a Dafydd Evans am drefriu'r *cyhn,* gyda chymorth gan Nansi a Des Hayes.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fercher, y 9ed o Hydref, am 7.30 pm yng Nghapel y Gerlan. Dewch â'ch syniadau ar gyfer rhaglen y gaeaf. Croeso cynnes i aelodau newydd.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i John a Didi Morgan, Oronsay - y ddau wedi bod yn yr ysbyty ac wedi dyfod adref;

Mrs Margaret Williams, T 'n Parc, sydd wedi bod yn yr ysbyty;

Mrs E. Evans, Cae Crwth, sydd yn Ysbyty Machynlleth;

Mr Ewart Davies, Caer-olwg, Lôn Glanfred;

Mr Eugene Cory, Lôn Glanfred;

a Mr Colin Cridge, Lôn Glanfred - y tri adref o'r ysbyty.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Cecil a Regina Jones, am ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganwyd merch fach i Alun a Kath ym Mont-goch - chwaer fach i Mali.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Mary Thomas a'r teulu, Croesawdy, sydd wedi colli cefnder yn Aberystwyth - J. R. Jones (Tal-y-bont gynt).

## Gwyliau

Braf gweld, Nia Rowlands, Clychau'r Gog, adref am wyliau o Seland Newydd.

## Cymdeithas Gydenwadol Genau'r-glyn

Eleni trefnwyd y trip i Gastell Powys, sydd nawr yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Ar y ffordd cafwyd coffl yn yr Hen Orsaf yn y Trallwng ac yna ginio hanner dydd sylweddol yn Nhafarn y Raven.

Mae'r Castell yn dyddio o tua 1200, a saif ar ben craig, ond mae wedi ei addasu yn sylweddol ar hyd yr oesoedd, gan genedlaethau o deulu'r Herbertiaid a'r Cliveiaid. Roedd trysorau a chreiriau a gasglwyd yn yr India yn addurno ystafelloedd y Castell. Golygfa arbennig oedd y nenfydau mewn llawer ystafell a baentiwyd yn y dull Eidalaidd, mewn lliwiau Uachar â'r gwaith yn gelfydd. Yn ogystal llawer iawn o bortreadau teuluol mawr yn hongian ar y waliau.

Lleolir y Gerddi raewn terasau o dan y Castell - gwaith Arglwydd Rochford tua diwedd y 17eg ganrif. Gardd ffurfiol ydyw gyda pherthi bychan yn fframio gweliau yn cysgodi planhigion lliwgar. Pleser mawr oedd gwylio'r gofalwr wrth ei waith yn tocio'r perthi bychan, yn panso i gael llinell hollol syth, a dim brigyn o'i le. Mae 'na goed yw anferth, hefyd wedi eu tocio yn ddestlus, a cherfluniau o blwm.

Hawdd credu'r hysbyseb mai yma mae'r casgliad plas gwledig gorau yng Nghymru ac mae'r ardd hefyd yn olygfa ysblennydd. Diwrnod i'w gofio â'r diolch unwaith eto i Mrs Angela Wise am drefniadau hwylus.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf o'r tymor newydd ar y 17eg o Hydref yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 o'r gloch. Mae 'na groeso cynnes i bawb ymuno i glywed siaradwr ar ran Cruse - Cymdeithas sy'n cynghori pobol mewn galar.

## Calendrau

Bydd calendrau 2003 gyda lluniau o'r ardal ar werth yn fuan am £4.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn llwyddiannus yn eu harholiadau lefel A a phob dymuniad da i'r dyfodol - Lowri Daniel fydd yn mynd i Brifysgol Warwick i astudio hanes ac Anthony Hammond fydd yn cymryd blwyddyn allan.

# LLANGORWEN/CLARACH

## Gerddi Agored

Yn ystod yr haf bu dwy ardd yn Llangorwen yn agored i'r cyhoedd i godi arian tuag at elusennau. Mae'r gerddi hyn yn Uewyrchus er gwaethaf gwyntoedd hallt dyffryn Clarach.

## Nantcellan

Yn gyntaf ar y 22ain o Fehefin, bu gardd Mr a Mrs Gardner, Nantcellan, yn agored fel rhan o Gynllun y Gerddi Cenedlaethol i godi arian tuag at elusennau amrywiol a chyfraniad tuag at Gymdeithas Abbeyfield, Aberystwyth. Codwyd ymron £900 y diwrnod hwnnw wrth i'r ymwelwyr flasu llonyddwch yr ardd a mwynhau lliw a phersawr y blodau a'r prysgwydd sy'n tyfu yng nghysgod y coed sbriws mawrion. Gwelir nifer o fathau o rosynnau graenus fel 'Margaret Merrill' ac 'Elizabeth of Glamis' sydd wedi ffynnu er gwaethaf y tywydd gwlyb, gwyntog a gaf yd ym mis Mehefin.

Eleni roedd y ddau bwll, gydag amrywiaeth o blanhigion dwr a thir corsog, wedi sefydlu gyda ffrwd fechan yn rhedeg o un i'r llall. O gwmpas y pyllau plannwyd coed ifanc a gerllaw ceir dau ddarn o dir lle y gwasgarwyd hadau blodau gwyllt. Roedd hi'n hyfiyd ymdeimlo â thawelwch y wlad yn yr haul a ddaeth allan yn y prynhawn. O gwmpas y pyllau doedd dim i'w glywed ond y nant yn byrlymu a siffrwd y gweiriau yn yr awel.

Roedd hi'n bosib prynu planhigion neu gynnyrch cartref o'r stondinau a mwynhau cwpanaid o de a chacen ar ôl cerdded o gwmpas yr ardd.



Y pyllau d r yng ngardd Mr a Mrs Gardner, Nantcellan ar eu diwrnod agored -22 Mehefin

## Plas Cwmcynfelin

Yr ail ardd i groesawu ymwelwyr oedd gardd cartref nyrsio Plas Cwmcynfelin ar brynhawn dydd Sadwrn 20fed o Orffennaf. Darparwyd te mefus ac i ddiddanu'r bobl roedd Jazztet, Côr Meibion Aberystwyth, y ddeuawd Fflon Griffiths a Gregory Roberts a Rebecca Morris yn canu yno.

Mae'r ardd hon yn hyfryd hefyd gyda'i rhosynnau, fuschias ac amrywiaeth o brysgwydd a choed urddasol yn harddu amgylchfyd preswylwyr y cartref. Roedd hwn yn gyfle iddynt gymdeithasu â'u teuluoedd a ffrindiau mewn awyrgylch hwyliog.

Roedd hefyd yn gyfle i'r oedolion a'r henoed gofío am yr ieuenctid yn ein plith sy'n dioddef afiechyd wrth iddynt godi arian tuag at Apêl Arch Noa i godi Ysbyty Plant i Gymru. Llwyddwyd i gasglu £2,200 tuag at yr achos da hwnnw.

# BOW STREET

## TREFN OEDFAON

### NODDFA

Hydref 6, Bore Gweinidog (Cymundeb); 13, Bore Oedfa undebol yn Soar, Iianbadarn; 20 Prynhawn Gweinidog; 27, Bore, Y Parchg Raymond Jones (Cymundeb)

### YGARN

Hydref 6, O.T. Evans; 13, Stanley G. Lewis; 20, Bugail; 27, Bugail.

## Wyres fach

Llongyfarchiadau i Gwen a David Pugh, 19 Tregerddan, ar ddod yn fam-gu a thad-cu. Ganwyd bachgen bach i Julia a Ron ar ddydd Sul Awst y 4ydd. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r teulu bach.

## Priodas



Mair Bowen a Meirion Botwood

Ar y 3ydd o Awst, yng Nghapel y Garn, priodwyd Mair Bowen, 35 Tregerddan, a Meirion Botwood, Y Felin, Pontrhydfendigaid.

Gwasanaethwyd gan y gweinidog, Y Parchedig R.W Jones. Yr organydd oedd Kathleen Lewis a chanwyd unawd gan Carys Ann Ebenezer. Y gwas priodas oedd Aled Owen, ffrind y priodfab, a'r morynion oedd Kelly Matthias, ffrind y briodferch, a Lucy Botwood, nith y priodfab. Y tywyswyr oedd John Evans, Andrew McConochie, Euros Edwards a Ben Jones.

Gwnaethpwyd bwa o ffyn hoci a phicffyrch wrth ddrws y capel gan glwb hoci Bow Street a C.Ff.I. Lledrod. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Marine a threuliwyd y mis mêl yng Ngran Canaria. Maent wedi ymgartrefu ym Mhontrhydfendigaid. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.



Aelodau henoed Llandre a Bow Street ar ymweliad â Gerddi Bodnant

## Gyrfa chwist

Cofiwch am yrfa chwist Cartref Tregerddan nos Iau, Hydref y 3ydd am 8 o'r gloch.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Elgan a Menna Davies a'r teulu, Maes Afallen, ar farwolaeth tad Elgan yn Aberystwyth ddiwedd Awst.

## Pob hwyl

Pob dymuniad da i Martin Riley Maes Ceiro, sydd, ar ôl treulio cyfnod fel Archifydd dan Hyfforddiant yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn dechrau ar gwrs M.Sc. mewn Archifyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Neuadd Rhydypennau

Noson Gymdeithasol yng nghwmni Aled Davies, Aled Lewis Evans a Carina. Nos Wener, Hydref 4ydd am 7.30 o'r gloch. Mynediad £2.00

## Arholiadau

Rhaid Uongyfarch plant yr ardal ar eu Uwyddiant yn arholiadau lefel A a TGAU a dymuno'n dda i'r rheiny ohonynt a fydd yn cychwyn mewn swydd neu ar yrfa golegol.

## Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Vernon Jones, Gaerwen, ar ddod yn fuddugol ar y Delyneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi; ac i Eddie Jones, Dryslwyn, ar ennill y wobr gyntaf am gyfansoddi dawns Uys. Hefyd i Ann Jones, Llys Maelgwyn ar gael ei hurddo â'r wisg werdd yng Ngorsedd y Beirdd am ei chyfraniad a'i gwaith diflino gyda CYD, sef Cymdeithas y Dysgwyr, yn ardal Aberystwyth.

## Yn gwella

Da deall bod Rees Thomas, Ty Clyd, yn gwella o'r anafiadau a gafodd pan lithrodd ei fotor beic ar olew wrth ddod adref ar ôl un o'i deithiau pleserus.

Braf gweld Eddie Jones, Dryslwyn, o gwmpas y pentref unwaith eto ar ôl treulio peth amser yn yr ysbyty.

## Croeso

Croeso i Melfyn Jones, gynt o'r Lôn Groes, sydd wedi cychwyn ar ei swydd fel dirprwy bennaeth Ysgol Rhydypennau.

## Diolch

Dymuna Eddie a Bethan Jones, Dryslwyn, Blaenddôl, ddiolch am bob cymwynas a charedigrwydd a dderbyniodd y ddau yn ystod y deufis olaf yma. Diolch o galon.

## Diolch



Megan du Bois gyda Louisa a Rhydian Phillips

Dymuna Megan EhiBois o Cleve, Awstralia, afuynbywgydaAluna Louisa Phillips ym Maesceiro, am ddwy flynedd, ddiolch i'r gymuned am y cyfeillgarwch a'r haelioni a ddangoswyd iddi yn ystod ei harhosiad.

Er na wyddai am Gymru na'r iaith Gymraeg o'r blaen, 'roeddent wedi creu argraff ddofn arni, ac mae'r bobl sy'n byw yn ei hardal hi 'nawr yn Awstralia yn gwybod llawer mwy amdanom erbyn hyn!

Gobeithia ddod yn ôl am iddi wneud gymaint o ffrindiau - ym mhentref Bow Street yn arbennig - ac mae'n sicr y bydd ei chyfnod yma yn aros yn ei chof am byth. Diolch o galon.



Glesni Thomas a Robert James

## Priodas

Dydd Sadwrn, Awst 3ydd yng Nghapel y Garn, Bow Street, priodwyd Glesni Thomas, Ty Clyd, Bow Street, a Robert James o Machen, CaerfHli. Gwasanaethwyd gany Parchg Robert Jones. Y morwynion priodas oedd Sian Thomas a Cerys James, a'r gwas priodas oedd Mark Worfcman, flrind y priodfab. Ffrindiau i Robert hefyd oedd y pedwar tywysydd. Mrs Mair Evans oedd wrth yr organ. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Belle Vue, Aberystwyth, a threuliwyd y mis mêl yn Awstralia. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd ym Machen.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn llwyddiannus yn eu harholiadau lefel A a phob dymuniad da i'r dyfodol - Eiry Dafydd fydd yn mynd i Briíysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg; Sara Huws fydd yn mynd i Gaergrawnt i astudio Ffrangeg a Rwsieg; Jonathan Jones a Rhian Raw-Rees. Hefyd y canlynol fydd yn cymryd blwyddyn allan - Emyr George, Tomos George, Aled Evans a Stephen Pugh.

## Pwyllgor Henoed Bow Street a Llandre

Cynhaliwyd ein noson goffi flynyddol eleni ar Fai y 31ain. Da oedd gweld nifer dda o bobl wedi dod ynghyd i fwynhau a chefnogi. Agorwyd y noson gan Mrs Megan Evans yn ei ffordd ddeheuig, ddiymhongar ei hun. Mawr yw diolch y pwyllgor iddi am y gymwynas ac am ei rhodd anrhydeddus i'r coffrau.

Yn ystod yr haf bu'r henoed am drip diwrnod i Erddi Bodnant ac un hanner diwrnod i ardal Aberaeron. Noddwyd y trip i Erddi Bodnant gan Gynllun Gerddi Agored Cymru a threfnwyd y cyfan gan y pwyllgor.

Ar y 6ed o Fehefin bu'r wibdaith i Bodnant. Wedi cychwyn tua naw, a galw am baned yn Nolgellau ar y ffordd, daeth yn ddiwrnod braf a gwelwyd y gerddi yn eu gogoniant. Cychwynnodd y trip hanner diwrnod am un o'r gloch ac wedi egwyl yn Aberaeron aed ymlaen i lianina Arms am de ac yna ymwelwyd â'r ganolían arddio gyfagos.

Yn ychwanegol at y gweithgareddau arferol hyn; ar yr 21ain o Awst eleni, trefnwyd cyfle i fynd i weld y sioe gerddorol 'The Sound of Music' yng Nghanolfan y Celfyddydau.

## Aelodau newydd

Eleni cawsom groesawu pump o aelodau newydd atom ar y pwyllgor. Diolch i Julie Evans, Lowri Evans, Nyrs Gwenda James, Gwenda Mosley a Brenda Williams am gytuno i ymuno â ni.

## Te wythnosol

Croeso i gyfeillion hen a newydd i'n boreau te wythnosol - am 10 o'r gloch - yn Afallen Deg dydd Iau, a Bethlehem dydd Mawrth.

## Graddio

Mae John Colbourn, Nant Gau, wedi ennill gradd BA yn y gyfraith o Brifysgol Warwick.
Bydd nawr yn dilyn cwrs blwyddyn yn Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

## Priodas

Fis Gorffennaf priodwyd Robert Colbourn, Nant Gau, ag Amber Teg yng Ngwesty St Mellon, Caerdydd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

# PEN-LLWYN/CAPEL BANGOR

## Genedigaeth


Ganwyd merch i Mr a Mrs Cefln a Sian Evans, Pwllclai (Haf Lewis), chwaer fach i Ieuan Llwyd a Tomos Oywelyn. Llongyfarchiadau mawr.

Ganwyd hefyd fab i Mr a Mrs David Livsey, Fferm y Pentref gynt, (Luke Lloyd). Llongyfarchiadau i David a'i deulu, sy'n byw yn awr yng Nghaerdydd.

## Bedyddio

Bedyddiwyd Carwyn Andrew, mab Mr Ceredig a Mrs Mary Vaughan, Tangeulan, yn ddiweddar gan y Parchg Morris Pugh Morris, yng Nghapel Pen-llwyn.

Hefyd Alaw Lois, merch Mr Dylan a Mrs Nia Evans, Trering, gan y Parchg Gareth Alban ar y laf o Fedi yn y capel.



Edward Land ddiwrnod y Seremoni radd yn Aberystwyth

## Graddio

Llongyfarchiadau i Edward Land ar ei radd anrhydedd B.Sc. Econ. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth ar y 17eg o Orffennaf. Pob dymuniad da iddo yn y dyfodol.

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau eto i Gareth Morgan, Dolberllan, ar ennill gradd Ph.D. Prifysgol Cymru yn ddiweddar. Pob dymuniad da Gareth.

## Ysbyty

Bu amryw yn cael triniaeth yn yr ysbyty dros yr haf, sef Mrs Daniel Evans, Tywynfa; Mr Gwyn Edwards, Hyfiydle, a Mrs Eirwen MacAnulty. Hyderwn eich bod i gyd yn well, a dymunwn i chwi wellhad llwyr a buan. Deallwn fod Miss Irene Lewis yn dal yn yr ysbyty. Cofíon cynnes ati hithau hefyd, ac i Mrs Iris Rees sydd ar hyn o bryd yn Bodlondeb.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Sian a Glyn Williams, Brynrheidol. Mae Sian wedi colli mam, sef Mrs Mary Owen, Dolau Gwyn, Pontrhydfendigaid.

Hefyd i deulu Troedrhiwlwba ar farwolaeth Morgan Thomas, Troedrhiwlwba gynt, a oedd yn byw yn awr yn Llandudno.

## Ysgol Sul

Y mae'r Ysgol Sul wedi ail-ddechrau ar ôl seibiant yr haf. Croeso i unrhyw blentyn neu oedolyn a garai ymuno rhwng 2-3 o'r gloch bob Sul. Mrs A Lewis yw yr arolygyddes eleni.

Cafwyd gwibdaith yr Ysgol Sul ym mis Gorffennaf pan aeth y plant am drip i Bontarfynach ar y trên bach. Yr oedd yn ddiwrnod heulog o haf, a mwynhaodd pawb cael hufen iâ ar ddiwedd y daith, a chwilota yn y siop fach ar yr orsaf.

## "Gwylfa Swyn" yn ennill

Bu Ffion Gruffudd (wyres John a Doreen Davies, Glasfryn), yn Uwyddiannus iawn mewn amryw o sioeau eleni, gyda'r gaseg Gwylfa Swyn. Enillodd y wobr gyntaf mewn chwech o sioeau, a hefyd y Bencampwriaeth Adran C yn Sioe Llanfair Careinion ddiwedd mis diwethaf. Llongyfarchiadau. Yn amlwg mae Ffion wedi cael hwyl wrthi yn dangos eleni yn lle ei thad-cu, ac yn cael llwyddiant bob tro.

## Gwerthu

Mae Rhiwarthen Isaf yn newid dwylo, pan fydd Mr Glyn ac Ossie Vaughan yn ymddeol. Mr a Mrs Arnold Evans a'u meibion sydd wedi prynu y fferm. Pob dymuniad da iddynt i gyd. Deallwn mai ond dwy fferm yn yr ardal, sydd bellach â'r teuluoedd gwreiddiol yn dal yn ffermio, sef Troedrhiwlwba a Phenlan Olau. Daw tro ar fyd!

## Merched y Wawr - Cangen Melindwr

Ar nos Fawrth, Medi 3ydd, gwelwyd aelodau o'r gangen yn cyrraedd Neuadd y Pentref yn cario bagiau eitha' mawr. Beth oedd yn y bagiau tybed?

Dyma noson gyntaf y tymor newydd o dan lywyddiaeth Mrs Mair Jenkins. Croesawodd ni i gyd yn gynnes i'r cyfarfod gan roi croeso arbennig i ddwy gyn-aelod oedd yn ail ymaelodi ar ôl seibiant ac i un newydd.

Ar ôl gorffen trafod y materion busnes pan etholwyd Mrs Elizabeth Collinson yn is-ysgrifennydd treuliwyd awr ddiddorol iawn yn edrych ar gynnwys y bagiau. Roedd yno ffrogiau priodasau hyfryd iawn a rhaid oedd dyfalu pwy oedd perchennog pob gwisg. Caf yd hefyd edrych ar luniau a chlywed hanesion diddorol iawn o ddigwyddiadau'r diwrnod mawr. Noson i'w chofio.

I orffen cafwyd cwpanaid o de a bisgedi. Mrs Yvonne Rees enillodd y raffl.

Bydd ein cyfarfod nesaf ym Mhenrhos, Llanrhystud ar laf o Hydref. Os am f y o fanylion, cysylltwch â Mrs Angharad Jones, Tawelfan, ein hysgrifennydd.

## NEUADD Y PENTREF - PEN-LLWYN

### Clwb 100

Nid peth hawdd yw cadw Neuadd Gymunedol fel Neuadd y Pentref, Pen-llwyn, mewn cyflwr da i'r rhai sy' am ei defnyddio ac ar sail ariannol gref, yn y dyddiau sydd ohoni. I helpu gyda'r dasg o gadw'r costau llogi i lawr a'r coffrau'n iach, mae Pwyllgor y Neuadd yn rhedeg Clwb 100.

Yn aníîodus rydym wedi colli cefnogwyr fíyddlon a hael dros y flwyddyn neu ddwy olaf ac ar hyn o bryd prin yw aelodaeth y Clwb 100.

Tybed a íyddai rhai o drigolion dalgylch Ysgol Pen-llwyn yn fodlon ymaelodi â'r Clwb? Mae talu £10.00 y flwyddyn nid yn unig yn creu cyfle i ennill gwobr ariannol yn flsol, ond hefyd yn fodd o gefnogi gwaith y Neuadd, i'w chadw at ddefnydd trigolion heddiw a'r dyfodol.

Gall un ymaelodi drwy gysylltu â unrhyw un o'r pwyllgor presennol sef Eiflon Thomas, Janet Heather James, Mair Jenldns, Iona Evans, Gwyneth Harries, Gwen Jones, Pauline Pugh, Marie Howells, Sian Spinlt neu Gaynor Jones.

Wele isod restr o'r enillwyr diweddaraf:
£20.00 - 67 - Iwan Morgan, Forge Cottage, Pen-llwyn
£10.00 - 59 - John Davies, Glasfryn, Pen-llwyn
£5.00 - 43 - Wynne Jones, Tan-y-gaer, Pen-llwyn
£5.00 - 63 - Dick Evans, Garej yr Exchange, Pen-llwyn.

## Sioe Capel Bangor a'r Cylch

Dydd Sadwrn, Awst y 3ydd, cynhaliwyd y sioe flynyddol ar gae Maesbangor, trwy ganiatâd Mr a Mrs P Keegan, a chae Troedrhiwlwba trwy ganiatâd Teulu Thomas, Troedrhiwlwba. Caf yd nifer o ddosbarthiadau i'r ceffylau a'r c n ac adran arddwriaethol cynnyrch a diwydiannol yn y babell.


Roedd yn ddiwrnod braf a daeth nifer o gystadleuwyr a chefnogwyr ynghyd i wneud y sioe yn llwyddiant, ac yn un o'r sioeau gorau eto.

Roedd yna gystadlu brwd yn nosbarthiadau y ceffylau a'r c n. Ymhlith yr enillwyr Ueol roedd cefiylau gwedd Bridfa'r Rheidol, Cobiau Cymreig Bridfa'r Arthen, Christine Williams, Rhiannon Edwards, Sue Mizen a Ratherine Wakeman o Gapel Bangor a Lisa Saycell o Goginan. Enillwyr yn y sioe gwn oedd Julie a Dafydd Morgan a Daniel John.

Yn y babell roedd cyfraniad plant yr ysgol gynradd yn amlwg iawn. Enillwyr lleol a gafodd brif wobr yn y babell oedd Fflon Evans a N. Laws o Gapel Bangor a Hywela Saycell o Goginan.

Ar ddiwedd y dydd dyfarnodd y Uywyddion Mr a Mrs D. Evans, Typoeth, Cwmrheidol, y gaseg wedd o Gastellnewydd Emlyn yn bencampwr y sioe.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y sioe eleni. Os hoffai unrhyw un ymuno â'r pwyllgor, maent yn cwrdd dydd Mercher cyntaf pob mis yn festri'r eglwys am 7.30 yh. Rhagor o fanylion cysylltwch â'r ysgrifennydd Mrs Wendy Davies, Glwysle, Hen Goginan, (01970 880 298).



David Davies, Troedrhiwceir, yn dangos march Barry Mathews sydd wedi cael tymor llwyddiannus iawn eleni. Enillodd Rheidol Montgomery ei ddosbarth a llwy aur yn Sioe Abergwaun ac mae ei gaseg Rheidol Snow Princess wedi ennill nifer o wobrau yn ystod yr haf gan gynnwys y Sioe Frenhinol. 'Roedd David y bedwaredd genhedlaeth o'r teulu i arddangos Ceffylau Gwedd yn Sioe Tal-y-bont, y cyntaf oedd ei hen-daid o Fronsaint, yna ei dad-cu, y diweddar D.J. Davies, Rhyd-tir ac yna ei dad Richard Davies, Troedrhiwceir.



Ffion Gruffudd gyda 'Gwylfa Swyn'



Dei a Nancy Evans yn cyflwyno cwpan yn Adran y Ceffylau Gwêdd i Barry Mathews, Aber-ffrwd.

# PENRHYN-COCH

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elen Davies, Meurig Cottage, ar gael ei phenodi yn swyddog marchnata gyda chwmni recordiau Sain.

## Arlioliadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol am fod yn llwyddiannus yn eu harholiadau lefel A a phob dymuniad da iddynt yn eu gwahanol golegau. Seiriol Dafydd - Prifysgol Abertawe (Almaeneg); Ceri John - Prifysgol Nottingham (Y Gyfraith), Cathryn Thomas Priíysgol Aston, Birmingham (Astudiaethau Busnes).

## Gorsedd

Llongyfarchiadau i Donald Moore, Ger-y-llan, ar gael ei urddo i Urdd Derwydd er Anrhydedd yn Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi.

## Cerddorion ifanc

Llongyfarchiadau i'r canlynol, am fod yn llwyddiannus yn arholiadau yr haf a gynhaliwyd dan nawdd Bwrdd Cysylltiol Yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.
Ymarferol:
Gradd IV Celyn Ebenezer
Theori:
Gradd I Sara Morgan (Anrhydedd)
Gradd II Rhys Morgan (Clod)
Hefyd dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.
Cam I Hannah Wells.
Cam II Elin Fanning (Anrhydedd); Laura Marshall; Lowri Morgan.

## Actor ifanc

Ers mis Mai, clywir llais Marc Roberts, Cae Mawr, yn cymryd rhan y cymeriad Carwyn yn yr opera sebon radio 'Eileen' ar Radio Cymru ddwywaith y dydd yn ystod yr wythnos.

## Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Charlotte Griífiths, Maesyfelin, ar ennill y wobr gyntaf ar y ddawns greadigol agored a dod yn gydradd drydydd yn y gystadleuaeth dawnsio disgo agored.

## Urdd Gwragedd Sant Ioan

Ailagorwyd tymor y gaeaf gyda Chymun Bendigaid dan ofal y ficer John Livingstone; gwnaed y darlleniadau gan Catherine Livingstone. Yn dilyn y gwasanaeth yn yr ysgoldy croesawyd aelodau hen a newydd gan y llywydd, Edwina Davies. Cafwyd trafodaeth am weithgareddau'r tymor newydd, a daeth y noson i ben gyda swper wedi ei baratoi gan y gwragedd.




David Minchin a Rhiannon Lloyd Williams briodwyd yn Eglwys San Pedr, Elerch, ar Awst 17

## Priodas

Yn eglwys Sant Pedr, Elerch, ar Awst 17eg a'r Parchg John Livingstone yn gweinyddu, priodwyd David Minchin, mab Drs Frank ac Anne Minchin, River Mead, Penrhyn-coch a Rhiannon Lloyd-Williams, Foel-golomen, Tal-y-bont. Gwisg laes o ifori satin gyda brodwaith a pherlau arni, a phenwisg grair o lês oedd gan y briodferch. Cariai dusw o liliau. Gwisgoedd o liw lafant oedd gan Cathryn Lloyd-Williams a Dwynwen James - morwynion. Y gwas priodas oedd Mark Thomas ac yn gweini roedd Rhodri Lloyd-Williams, Jackie a Brian Minchin a Sam Lloyd-Williams. Yr organydd oedd Mrs Elizabeth James. Ymhlith y gwesteion roedd rhai o'r Iwerddon, Gwlad Belg, y Swistir a Japan. Treuliwyd y mis mêl yng Nghroatia. Dymuniadau gorau i chi eich dau.

Llun: Tom Kinver



Charlotte Griffiths

## Prífathro newydd

Croeso cynnes i Mr Emyr Pugh-Evans, sydd wedi derbyn swydd prifathro yr ysgol gynradd. Gobeithio y byddwch chi a Rhys a Mared yn hapus yn ein plith.

## Dyweddio

Dymuniadau gorau i Geraint Wyn Jenkins, Kerry, Rhos Hendre, a Carys Mair Evans, 7 Maes y Felin ar eu dyweddiad ym mis Gorffennaf;
ac i Siôn James, 8 Ger-y-llan, a Gemma Pugh, 20 Ffordd Alexandra, Aberystwyth ar eu dyweddiad.

## Croeso i'r babanod

Cyfarchion i Lynwen a Darren Huxtable ar enedigaeth mab - Steffan Gwyn Rees.

Croeso i Owen - mab bach Steve a Mandy Keyworth, Y Ddôl Fach.

## Bedyddio

Ar fore Sul, Gorffennaf 28ain â'r ficer y Parchg John Livingstone yn gweinyddu bedyddiwyd Emilly ac Oliver James - plant bach Emma a Damien Walsh, 3 Garn Wen.

Bedyddiwyd Owen Samuel, mab bach Catrin a John Galbraith, 2 Llwynderw ar Awst 18.

Fore Sul, Awst 25ain, bedyddiwyd Phoebe Anne - merch fach Louise ac Anthony Elvy, 1 Tan-y-berth.

## Graddio

Pleser yw Uongyfarch y canlynol am eu llwyddiant:

Dana Thomas, 8 Nantseilo ar radd BA yng Ngholeg Manceinion; Gwyddno Dafydd, Rhandir, gradd B.Sc. Econ. yn Aberystwyth; Lynne Hughes, Ger-y-llan, B.Sc. mewn Addysg Gorfforol, Iechyd a Chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor; Rhian Haf Williams, 1 Glanstewi, gradd BA mewn Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor; Owain Llyr Thomas, Garthcelyn, Aberystwyth, gradd B.Eng. mewn Electroneg a Chyfrifiadureg yn Athrofa Prifysgol Abertawe; Anwen Wynne, Cysgod y Coed, ar dderbyn Diploma mewn Astudiaethau a Gofal Iechyd gan Brifysgol Cymru Abertawe; David Joseff Evans (Bwthyn), Pentre Farm, Capel Bangor B.Sc. gan Brifysgol Cymru Abertawe.

## Priodas

Dydd Sadwrn, Awst 17 yn Eglwys Sant Ioan priodwyd Iwan Ellis ac Anwen Ebenezer, Bryncastell, Bow Street, merch Hywel a'r diweddar Mary Ebenezer. Yn gweinyddu 'roedd y Parchg John Livingstone; yr organydd oedd y Parchg David Francis a'r delynores oedd Miss Carys Roberts. Dymuniadau gorau a phriodas hapus.

## Derbyn medalau

Llongyfarchiadau i Ceinion Elwyn Jones, Hafodawelon, ac Arthur Edward Hughes, 18 Tregerddan, Bow Street, ar dderbyn medal hir wasanaeth (dros ddeugain mlynedd) yng Ngogerddan IGER, gan y Dywysoges Anne yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.

## Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Christopher Evans, Pont Seilo, am gael ei enwebu yn chwaraewr y flwyddyn gan dîmau pêl-droed Bow Street a Mini Minor (gobeithio i ti fwynhau dy hun yn Iwerddon).

## Baton

Hyfryd oedd gweld Jackie Minchin, River Mead, yn cario "baton" Jiwbilî y Frenhines yn y dasg trawsnewid o'r wladwriaeth. Jackie oedd yr olaf, a'i braint hi oedd cyflwyno y "baton" i Faer Aberystwyth cyn mynd i'r gêmau ym Manceinion. Da iawn Jackie.



Nia Lewis

## Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Nia Mair Lewis, Llys Aeron, ar ennill y wobr gyntaf am ganu yr Hen Ganiadau yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn Nhyddewi.

## Dathlu

Llongyfarchiadau i John a Linda Holmes, 47 Glanceulan, ar ddathlu eu priodas ruddem ar Awst y deunawfed. Deg arall cyn yr aur!

Dathlu priodas arian oedd Bryan a Ceinwen Jones, Bodorgan. Llwnc destun arall i'r wyres fach.

## Priodas arian

Mae Gerwyn a Marianne Powell, Leacroft, Llandre wedi dathlu eu priodas arian. Llongyfarchiadau i chi eich dau.

## Ysbyty

Da deall fod Eddie Evans, Gwawrfryn; Henry Thomas, Cwm Felin; Cyril Jenkins, Kerry; Alwyn Davies, Llwyngronw, a'r Parchg Kenneth Herbert yn gwella ar ôl bod yn yr ysbyty. Dymuniad gorau i'r Deon Gwlad, y Parchg Brian Thomas a'r Parchg Peter Thomas - eu dau wedi bod yn anhwylus. Brysiwch wella i gyd.

## Cydymdeimlo

Rstynnwn ein cydymdeimlad â'r Parchg Kenneth Herbert, Ger-y-Uan ar farwolaeth ei ferch yng nghyfraith - Mrs Sonia Herbert o Gaint.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Alun John, Ceri a Meganne ar farwolaeth Mrs Ann Bowen, Waunfawr - mam Mrs John.

Cofíwn am Margaret, perthnasau a chysylltiadau Mr Trefor Morgan, 14 Caer Felin.



Mrs Betty Loyn, Waunfawr, Llywydd y diwmod, yn agor ffair te a hufen a Mefus yng nghwmni Mrs C Padgett, Penrhyn-coch dan nawdd Eglwys Sant loan, Penrhyn-coch fis Gorffennaf. Llun:Hugh Jones

# Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch



Carwyn Jenkins yn derbyn crysau a thracwisgau newydd gan Brian Evans, Cyfarwyddwr Cambrian Tyres. Ar ran tÓm cyntaf Penrhyn-coch. Rhes gefn: Carwyn Jenkins, Brian Evans (Cyfarwyddwr Cambrian Tyres), John Jones (Cadeirydd), SiÙn Meredith, Graham Thomas, Owain Schiavone, Andy Caree, John Bailey, SiÙn James, Eirion Jenkins, Mark Jones, Jonathan Williams, Steve Williams, Griff Jones, lan Frost, Lennie Eilwell (Rheolwr), Nathan Bennett, Tim Turner Llun: Einion Dafydd



Ail dÓm Penrhyn-coch yn dangos eu crysau newydd cyn eu gím yn erbyn Machynlleth yn y Rhaniad Camrbrian Tyres. Rhoddwyd y crysau i'r Clwb gan yr Arwerthwr Tai, Aled Ellis. Rhes gefn: Owain Schiavone, Kevin Jenkins, Damian Smith, Jason Davies, Stan Richard (Rheolwr), Mark Trubshaw, Tom Collier, Richard Lucas, Jamie Maclnnes, Tim Makaruk, Brian Williams (Capten), Gethin Williams, Mark Hughes, Steff Harries. Llun: Einion Dafydd

# Ymddeoliad Alun John





Athrawon Ysgol Penrhyn-coch yn canu clod i'w prifathro

Alun a Pamela John ar ôl cyngerdd i anrhydeddu Alun ar ei ymddeoliad fel prifathro Ysgol Penrhyn-coch

Lluniau: Hugh Jones

# TREFEURIG

## Graddio

Llongyfarchiadau i Rhian Mason ar ennill ei gradd BA ddechrau'r haf.

## Swydd newydd

Pob dymuniad da i Euros Healy Maes Meurig, ar ei swydd newydd - Cydlynydd Strategol Plant a Phobl Ifanc Ceredigion.

## Lansio Aelwyd Trefeurig

Caf yd noson hwyliog iawn i lansio Aelwyd Trefeurig ar nos Wener 14ain o Fehefln. Bwriadwyd cynnal barbeciw a chwaraeon ar Gae Chwarae Pen-bont Rhydybeddau, ond gwaethygodd y tywydd yn ystod y dydd ac erbyn 5 o'r gloch y dewis oedd gohirio, cael sociad go iawn neu symud dan do. Penderíynwyd ar yr olaf a bu hen glirio a charthu yn sied Maesmeurig i gael y lle'n barod mewn pryd!

Roedd y noson lansio yn agored i bobl o bob oed, a daeth criw da ynghyd, gan gynnwys tua 25 o blant a phobl ifainc o 5 i 15 oed. Roedd Carol Davies (Miss Davies i'r plant Ueiaf!) ac Elen Trawscoed yng ngofal y chwaraeon a chaf yd sesiwn hynod o hwyliog. Roedd yr hwyl yn amlwg yn codi archwaeth ac roedd yna hen íynd ar y sosej a'r byrgyrs hefyd yn ystod y noson. Noson lwyddiannus sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr Aelwyd yn dechrau cwrdd yn rheolaidd yn y tymor newydd ym mis Medi. Y bwriad yw cwrdd bob yn ail ddydd Llun am 7.30 pm yn un ai Ysgol Trefeurig neu yng Nghapel Horeb neu Ysgol Penrhyn-coch. Mae croeso cynnes i unrhyw un sydd rhwng 11 a 25 oed i ymuno yn yr hwyl a chymdeithasu yn y Gymraeg.

Mae'r ddwy noson gyntaf wedi'u trefnu eisoes, ac erbyn y daw y rhifyn hwn allan bydd y gyntaf wedi ei chynnal ar Medi 16 - gweithgareddau a sglods yng Nghanolfan Astudiaethau Rheidol. Bydd y nesaf ar Fedi 30 - Hunan Amddiffyn yn Ysgol Trefeurig am 7.30 pm.

Os ydych chi am wybod mwy, cysylltwch â Linda Healy (828454) neu Angharad Fychan (822052) Welwn ni chi yno!

# Sioe Penrhyn-coch 2002

Cynhaliwyd Sioe Arddwriaethol a Chrefftau Penrhyn-coch ar yr ail ar bymtheg o Awst, gyda'r haul yn gwenu'n braf a phawb mewn hwyliau da. Cafwyd sioe ardderchog unwaith eto, gyda chystadlu brwd, ar nifer fawr o ddosbarthiadau gan gynnwys, Uysiau, coginio, gwaith llaw, gosod blodau ac ati. Braidd yn siomedig oedd dosbarth y blodau, ond er hynny roedd y safon o'r radd uchaf.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Lywyddion y dydd sef Dr a Mrs Clive Williams, Cae Mawr, am dderbyn y gwahoddiad ac am eu rhodd haelionus tuag at gynnal y sioe, am eu geiriau caredig, am dynnu'r raffl a hefyd am gyflwyno'r gwobrau i'r enillwyr ar derfyn y dydd. Diolch i bawb a fu mor garedig â chyfrannu'n hael iawn tuag at y raffl.

Rhaid cydnabod yn ddiolchgar y rhai fu yn paratoi y Neuadd nos Iau a nos Wener - gwirfoddolwyr o'r iawn ryw, i'r stiwardiaid am eu gwaith graenus a diflino bob blwyddyn, i'r gwragedd am drefnu a pharatoi lluniaeth blasus yn ystod y dydd, i'r beirniaid am ddod a gwneud eu gwaith yn ganmoladwy iawn fel arfer.

Hoffwn ddiolch o galon i chi yr holl Is-lywyddion am eich haelioni yn ariannol er budd y sioe, hefyd i bawb am eu rhoddion o gwpanau, tarianau, a medalau i wahanol gystadlaethau sydd erbyn hyn yn niferus iawn.

Rhaid cofnodi gwaith arbennig y swyddogion sef Miss Ann James, Ysgrifennydd; Mrs Mair Jenkins, Is-Ysgrifennydd a'r Cynghorwr T. A. Thomas, Trysorydd am eu cyfraniad i lwyddiant y sioe, hefyd i Mr Caerwyn Jenkins am gynorthwyo gyda'r rhaglenni, ac yn olaf i chi'r cystadleuwyr am ddod â'ch cynnyrch yn flynyddol i sioe y Penrhyn, heb eich cefnogaeth chi ni fyddai lawer o lewyrch ar y sioe, daliwch i gefhogi un o sioeau mwyaf Uewyrchus Ceredigion.

Llawer o ddiolch i bawb am bob caredigrwydd a chymorth a dderbyniwyd i sicrhau Uwyddiant ysgubol y sioe eleni edrychwn ymlaen yn hyderus i sioe Penrhyn-coch yn y flwyddyn 2003, gyda mawr ddiolch i chi i gyd.



Rhai 0 fuddugwyr Sioe Penrhyn-coch


Dr Clive Williams, Cae Mawr, yn areithio yn Sioe Penrhyn-coch


Fred Ralphs, Penrhyn-coch, enillydd y Sioe am y mwyaf 0 bwyntiau am y lluniau

## Neuadd y Penrhyn

Enillwyr Clwb 200+

Mehefin 2002

£15 Mark Horwood, Penrhyn-coch
£10 Megan Davies, Penrhyn-coch
£10 Dorothy Horwood, Bow Street
£10 Holly Thomas, Penrhyn-coch
£10 Carwynjones, Penrhyn-coch
£5 Morris Morgan, Penrhyn-coch
£5 Alwyn Davies, Penrhyn-coch
£5 Melanie Evans, Penrhyn-coch
£5 Stan Coldrey, Dolau
£5 Gwenno Morris, Penrhyn-coch

Gorffennaf 2002

£15 Meirion Jones, Penrhyn-coch
£10 Ceri Williams, Penrhyn-coch
£10 Glesni Morgan, Llanddeiniol
£10 Mervyn Hughes, Penrhyn-coch
£10 Arthur Thomas, Penrhyn-coch
£5 Mrs Pegg, Penrhyn-coch
£5 Owain James, Penrhyn-coch
£5 Kevin Evans, Penrhyn-coch
£5 Hugh Jones, Penrhyn-coch
£5 Alwyn Jones, Penrhyn-coch

Awst 2002

£15 Pearl Evans, Penrhyn-coch
£10 Dylan Jones, Pennal
£10 Gwawr Edwards, Y Borth
£10 Kevin Lewis, Penrhyn-coch
£10 Eleanor Schroder, Penrhyn-coch
£5 Beryl Pritchard, Penrhyn-coch
£5 Mair Jenkins, Penrhyn-coch
£5 Richard Williams, Penrhyn-coch
£5 Wendy Roberts, Penrhyn-coch
£5 Ken Evans, Salem


Wàl SERVICES
C\tm Nant, £apel £»angor
TF-WSIO
TOPF4 6i\MMP-LLIF
GWASANAETHAUHI

**SIOP A SWYDDFA BO5T**
PENRHYN-COCH
**Perchennog: R. C. Jenhins**
***Nr* agor**
Uun - **'ôadwrn**
***1 y* bore - 1 f r**
**S >f bore** - (* ***{r**
papurau **d>(ddio\ a'r**
**Uffrgell fideo**
**cardiau cffarch**
siop drvi>|ddedîg
FFON: **828312**

t'\M ^HOFtO


CYNNYRCH U-60L
A* ÊŸPRP. SUU 6i\MŸU **A &WAITH**
Ffon £2.8
Daf-jdd a tfane Paw

**I.O.** Morgana'i Fab
lard Garn House
BowStreet
Masnachwyr Glo
Fffôn


pemaacRapt
OD cofpee sfciop
&ow Ireet, aer Abenffttwfth, Dffed
ffôn (OIÍO) 810050
£offt **f^oreuol**
HMMI
&<frbr>jdau Foeth neu Oer
HM
Cìnto
**Te awn**
IMW
Crtfftau ac Anrhegion
Ar **3^or** saitb niwrnod **^fr wfthnofi** Mthefin. ó>orffennaf. Aw»t **a** Medi **(fet** arall. ar **gau** ar dd-jdd Uun)
sfop gfíL&çço
cbopp

SWYDDFA'R POST
**BOW STREET**
**6YL6H61FONAU**
**DYPDIOL A'p. f>UU**
JOHN A MARIA OWEN

**R J EPWARD5**
CONTRACTIWR AMAETHYDDOL
ARBENICWR MEWN ÚWAITH **AIL-HADU &WERTHWR** CALCH
**MASNACHWR** CWAIR A CWEUT
**ADEILADAU FFERM Y CWRT**
**CWRT FARM BUILDINCS**
**PENRHYN-COCH**
**FFÔN 82O 149**

**COLCHDY**
MAES-Y-MÔR
*Pvc* agor *"I* diwrnod
S >( bore - 1 >jr hvi>(r
6ioVchd-f derb<(n arian
•Peiriant golthi mawr
6i\nasanaeth ^lanhau duvets plu neu ffibr - ^r un diwrnod
ót^nasanaeth golchi blancedi.
Uenni a<(.>(.b.
í>iop lanhau di\lad
Digon o le parcio
**FFÔN 63927O**

www.s4c.co.uk



Fedar o ddim byw efo hi,
fedar o ddim byw hebddi

**BOB A'I FAM 8.30PM**
DYDD IAU
**YN DECHRAU 19 MEDI**

DRAMÄ NEWYDD

**S4C**

**Cwmni Theatr Gwynedd**
**Y Llwyfan Cenedlaethol**
**yn cyflwyno**

# BLODEUWEDD

**(Saunders Lewis)**

**yn Theatr y Werin, Aberystwyth**
**Nosweithiau Mawrth a Mercher Hydref 15-16 am 7.30**

# GOGINAN

## Mam-gu

Llongyfarchiadau i Sue Pryor, Llwyncerdin, ar ddod yn fam-gu unwaith eto pan anwyd mab, Lewis i'w merch yn ddiweddar.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Rhys Bebb, Blaendyffryn gynt, sydd nawr yn byw yng Nghaerdydd, sydd wedi dyweddío â Karen Webber sydd yn hanu o Gaerdydd.

## Symud i'r ardal

Croeso i Kath Brunsdon sydd wedi symud o Gwmbran i Bryn Pica, Hen Goginan. Bydd Kath yn dechrau busnes tocio cw^n yn yr ardal yn y dyfodol agos.

## Pêl-droediwr dawnus

Braf yw nodi fod Jo Sherwood wedi camu i fyny mewn safon yn ei yrfa pêl-droed. Mae yn awr yn aelod o garfan ail dîm Aberystwyth.

## Cricedwr ifanc

Llongyfarchiadau i Marc Evans, Gwarllan, sydd wedi bod yn chwarae criced i dîm dan ddeuddeg y Canolbarth. Yn ôl pob hanes mae yn fatiwr a bowliwr o fri. Mae ei frawd Lee wedi dangos hefyd ei fod yn alluog gyda bat ac mae ef hefyd wedi chwarae gêmau cynrychioliadol.

## Apêl

Os oes gan unrhyw un luniau neu hanesion o ysgol Goginan fe fyddai Brenda Haines ar 01212 408404 (e-bost Blodwen@blueyonder.co.uk) yn falch iawn o'u benthyg er mwyn gwneud copi gan ei bod yn gobeithio casglu'r wybodaeth at ei gilydd a gwneud Uyfryn o'r hanesion a hefyd efallai trefnu aduniad yn y pentref.

**GWASANAETH**

GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW*

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# MADOG a DEWI

CYHOEDDIADAU MADOG

HYDREF
2.00
6
13 Stanley G. Lewis
20 Bugail
27

## Eisteddfodol


Llongyfarchiadau i Nia Jones ar ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth yr unawd gontralto yn Nhyddewi.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Siôn a Janet Meredith, Maesawel, Cefnllwyd ar enedigaeth Huw Elis Meredydd fis Gorffennaf, brawd bach i Hanna.

**IEUAN THOMAS**

EICH CIGYDD LLEOL
Pen-y-garn
Ffôn 828 447



James Memorials

Ana
GOFEBAU ARBENNIG
BEDBARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU

Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin? Mae CM.CH MEITHRIN RHYDYPENNAU yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar forau Llun, Mawrth o Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9-11 o'r gloch.

Croeso i blant o 7\ oed i fyny. Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.

Am wybodaeth belloch, cysyllter â Susan Davies ar 820005

**CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU**

Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.

Croeso cynnes 1 bob plentyn rhwng 0-2 k oed a'I rlant.

# C0L0FNAU

## COLOFN CT

Helohelo. Gobeithio cafodd bawb haf braf a chanlyniadau sy'n atgof melys a phell i rapsgaliwns ifanc y Fro. Am hwyl a sbri yn wir. Poeni yn ddibaid am ddeufis ac yna allan o'r ffordd mewn hanner munud. Twt lol. Mae'r hen hen Gathryntom yn ffarwelio â Phenrhyn-coch ar ddiwedd y mis, a'i mentro i'r ddinas fawr. Birmingham! Tair awr ar y trên (ddim yn rhy bell) ond yn ddigon pell i mi. Cyffro, Cyffro! Rwy'n poeni tipyn hefyd. Gofalu am bob dim- golchi dillad, coginio, glanhau, cadw trefn ar arian, astudio yn Saesneg ac ar ben hynny oll, sicrhau amser hamdden. Ow diâr. Wel yr unig ffordd i ganfod os fedrai ymdopi ydy mynd. Anadl ddwfn a mentro.

'Rydw i bellach yn ddiogyn llwyr. Dyddiau da yn llawn cysgu a bwyta a gwyllo teledu ac efallai ceisio gyrru- yndw, rwy'n parhau i ddysgu ac O! am drafferth. Tabeth, diogyn a hanner a'n hapus braf cyfaddef hynny ond mi wn-âi, 'rwy'n gaddo, codi o fy ngwely a chael trefh ar bethe.. .rhywbryd. Mmmm trefh. Ni fu ERIOED i mi orfod llenwi cymaint o fiurflenni chwaith. Banc a phrifysgol a deintydd a.. .wel, os oes rhaid i mi lofhodi unrhyw beth arall, mi âi yn benwan. Am amser gwyllt yn te?

Ymysg yr holl gyffro yma, 'rwy'n llwyddo i wylio cryn dipyn o deledu (och, am syrpreis). Braf cael gwylio "I'm a celebrity..." a medru chwerthin yn "harti" a tnynd i'r gwely yn gwenu. Am raglen. (Mae pethe yn amlwg yn wael yma yn steshon Cathryn. Rhaid dianc yn go gloi). Mi fyddai, nos fory, yn colli'r cyffur o raglen. Mae gen i barti. HWRE! Cinio swanc mewn gwesty i ddathlu bodolaeth dosbarth '95. Mae hyn wedi peri i mi drawsnewid fewn i eneth "girlie" sy'n poeni am ei chyrls a'i gwinedd a'i bol a'i breichie. Yndw, mi ydw i'n poeni am rhain fel arfer, ond ddim i'r fath raddfa. Ond, eto, does gen i fawr o ddim byd gwell i wneud. Rwy'n siwr y bydd hi'n noson i'w choflo.

Ta beth. Mae "I'm a Celebrity" ymlaen toc. Paned a sach gysgu. Dim byd gwell.

tantoc*

ct

[Rydw i wedi bod i'r cinio erbyn hyn. Pawb yn edrych yn hynod o ddel a thlws ac wedi mwynhau chydig bach, ond dim dros ben llestri. Mi es innau adre yn "gynnar" a gwrando ar Radio 2 hyd y bore bach a bwyta Milky Bar buttons. DYNA oedd uchafbwynt o noson i mi. Ew, hawdd plesio yr hen ct.]

**Llongyfarchiadau i Cathryn ar ei chanlyniadau a phob hwyl ym Mhrifysgol Aston, Birmingham. Diolch iddi am fod mor ffyddlon ei chyfraniadau i'r Tincer ar hyd y blynyddoedd. Mae'n amlwg fod inc yn ei gwaed - bydd yn gyrru gaìr i ni yn achlysurol o'i hanes ym Mirmingham. (Gol.)**

## COLOFN MRS JONES

Yr wyf fl'n yrrwr gofalus sy'n ufuddhau i gyfyngiadau cyflymder am fy mod yn credu'n gydwybodol fod gyrrru car ar ormod o gyflymder yn beth ffôl i'w wneud. Ond ar ôl dweud hyn, y mae'r holl bwyslais diweddar ar yrru yn gyfreithiol yn mynd a'r holl hwyl o yrru mi dybiaf. 'Rwy'n dechrau alaru ar weld camerau ac arwyddion camerau ym mhob man ac o orfod edrych lle mae'r camera o hyd. Ac er gwaethaf pob gofal, 'rwy'n dal i orfod edrych dros ysgwydd - ac ar y mesurydd cyflymder - oherwydd nid yw Ford yn rhoi dim cymorth arall i mi o gwbl i wybod pa gyflymder y mae'r car yn ei fynd.

Ar Gortina 1600 y dysgais i ddreiflo ac Escort 1600 sydd gennym rwan. Ond y mae'r Escort yn lawer cyflymach car na'r Cortina ac y mae yn mynd yr un mor esmwyth ar 60 milltir yr awr ag ar 80 milltir yr awr. Ond gyda'r hen Gortina, unwaith yr aech chi dros rhyw hanner can milltir yr awr, 'roedd y llyw yn dechrau crynu a pho gyflymaf y spid, mwyaf hefyd o dipyn y petrol a ddefnyddid - h.y, i gael y defnydd gorau a mwyaf economaidd o'r car, 'roedd yn rhaid i chi arafu. Pan fenthyciem ni blant y car gan Mam, ei ffordd hi o wybod a oeddem wedi bod yn gyrru oedd gofyn inni a oeddem yn credu fod y car yn drwm ar betrol a gwae chi os cytunech ei fod! Ond ni rydd yr Escort unrhyw gymorth fel yna inni, dim ond mynd fel rhuban. Felly, gwyliadwriaeth gyson amdani sy'n diffetha gyrru yn llwyr. Nid oes posibl ymlacio, rhaid cadw golwg ar y cloc, cadw golwg am fan neu gamera neu blisman yn enwedig un ar gefn moto beic! A hyn i gyd am fod yr ychydig ffôl ac ynfyd sydd yn gyrru'n ormodol yn difetha pethau i bawb ohonom gyda chymorth parod y diwydiant ceir sy'n darparu ceir ar ein cyfer na all y mwyaf gofalus ohonom eu cadw dan y spid heb reolaeth fanwl. Oni fyddai'n bosibl creu car a fyddai yn dweud wrthoch eich bod yn gyrru neu un a fyddai'n gwrthod mynd mwy na'r hyn sy'n gyfreithiol? Pwy mewn difrif sydd angen car sy'n mynd mwy na 70 milltir yr awr ?

A pheth arall yr wyf wedi ei sylwi am bwyslais newydd yr heddlu ar atal cyflymder yw mai ymgyrch ffordd fawr ydi hi. Aeth y gwr a minnau i Ddylife y dydd o'r blaen. Mynd i fyny trwy Lanidloes ac yn ein holau trwy Fachynlleth yn ôl i Benrhyn - coch. Mae arwyddion camerau yn bla hyd y ffyrdd fawr ond unwaith yr ewch chi ar y ffyrdd llai, ni welwch chi unrhyw arwydd heb sôn am blisman. A beth ydi'r canlyniad ?

Mae yna ufuddhau i'r gyfraith ar y ffordd fawr gan yrrwyr sydd wedyn yn mynd i ddefnyddio'r ffyrdd llai fel cyrsiau Grand Prix. A mae ffordd Dylife yn ddigon peryglus fel y mae hi rhwng ei chyflwr a thwristiaid nerfus sydd wedi cael braw i'w heneidiau wrth ei chanfod heb ychwanegu atynt hen hogiau sydd dim ond yn mynd arni am eu bod yn gwybod fod ganddynt siawns gref o beidio cael eu dal. Ac y mae'r union yr un sefyllfa i'w gweld ar y fíyrdd o gwmpas Penrhyn - coch - hynny yw, y mae'r holl fonitro cyson ar y ffordd fawr yn hel y mentrus ar y ffyrdd culion sydd eisoes yn beryglus. A pha les lleihau perygl yn unman a'i ddyblu mewn man arall?A dyma i chi dri chwestiwn am dwristiaid. Pam na fedran nhw fynd ar yn ôl pan mae rhaid ? Sylwch chi, rhaid i'r lleol bob amser rifyrsio pan ddaw i gyfarfod twristyn ar ffordd gul. Ac, yn ail, pam fod pob un wan jac ohonynt o weld ffordd wael yn dechrau gyrru fel bat arni ? Rhyw obaith i'w gadael ynghynt, efallai. A pham nad an nhw i'r clawdd i wneud lle i chi eu pasio ? Ond er tegwch â hwy, fe ddylal'r Bwrdd Croeso fod yn disgriflo rhai iîyrdd fel rhai 'for local drivers only!' A mae'n rhaid i minnau gofio un peth. Os yw dreifio dros Dylife yn gymaint o ddychryn i dwrist ac ydi gyrru rownd Southampton i mi, yna mae nhw'n gwneud gwyrthiau yn gyrru o gwbl!


D J Evans
Cyfarwyddwr Angladdau
Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3KQ



J Selwyn Evans
Perchennog

Ffôn: 01970 820249
Symudol:0411 11 84 91

GWAITH GARDDIO



Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar(01970) 820924

MARK HUGHES

CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewincdd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

MORGAN & E
17 Elysian Grove
Aberystwyth
B Ffôn 612573
Peintvn(r i'r ^onedd a'r Werin
Peintwfr ac Mdurnyrçr
Amtang>[frifonjru-had ac am dditn
MORGAN & EVANS
MORGAN & EVANS
MORGAN & EVANS
MORGAN & EVANS

MORRIS & READ



PEIRIANWYR MODURON

Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p-m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

O E MORGAN
CONTRACTIWR
PARATOI SAFLEOEDD
TORRI SEILIAU
AGOR CWTERI A FFOSYDD
TIRLUNIO
ADEILADU FFYRDD A LLWYBRAU
GWAITH DAAM BRIS RHESYMOL
AMCANGYFRIF RHAD AC AM DDIM

Owain Elystan Morgan
(01970) 820 612

## YSGOL PEN-LLWYN

### Mabolgampau

Cynhaliwyd y mabolgampau yng nghae Powergen yng Nghwmrheidol ar Fehefln 28ain. Ar ôl prynhawn o gystadlu brwd enillwyd tarian Siôn Powell gan Melindwr, Rheidol ddaeth yn 2il ac Ystwyth yn 3ydd. Eleni rhannwyd tarian Victor Ludorum rhwng y ddau frawd Mark a Lee Evans - cawsant 15 pwynt yr un. Joanna James oedd y Victrix Ludorum - hithau hefyd wedi sgorio 15 pwynt.

Cyflwynodd Menna Jones y tarianau i gapteiniaid Melindwr, Joanna a Christopher ac i Joanna, Mark a Lee.



Capteiniaid Melindwr Joanna, Christopher a Denny yn derbyn y darian oddi wrth Menna Jones ym mabolgampau Ysgol Pen-llwyn

### Picnic tedi

Ar ddydd Gwener, Gorffennaf 12fed roedd Uond lle o dedis yn yr ysgol, yr achlysur oedd Picnic Tedi plant dosbarth 1.

Am 10 o'r gloch daeth plant bach yr ysgol feithrin â thedi yr un i'r picnic. Ar ôl gorffen bu pawb yn canu caneuon ac yn chwarae gêmau a chael stori am dedi arbennig 'Beth Nesaf?' Am 12 o'r gloch roedd y plant a'r tedis wedi blino'n lân.

### Trip yr Ysgol

Yn ystod wythnos olaf y tymor aeth llond dau fws o blant a rhieni am drip i Oakwood. Roedd y tywydd yn braf a chafwyd diwrnod ardderchog. Yn y bws ar y ffordd adref y cwestiwn oedd "Plis gawn ni fynd y flwyddyn nesaf eto?" sydd yn dweud y cyfan am lwyddiant y trip.

### Sioe Capel Bangor

Bu'r plant yn brysur yn ystod y tymor yn paratoi gogyfer â Sioe Capel Bangor. Eleni bu plant dosbarth 3 yn gwneud Lluniau Pasta, Magnetau Oergell, Patrwm o Ffrwythau, Gorffen Portread a llun o Fferm Heddiw neu yn Oes Fictoria.

Cystadlaethau dosbarth 2 oedd gwneud lluniau 3D, Masgiau a Ffotograffiaeth. Bu plant dosbarth 1 yn gwneud Pili Pala, Blodau'r Haul a Lluniau Pasta. Rydym yn ddiolchgar i bwyllgor y sioe am rodd o £100 i gronfa'r ysgol.

### Ffarwel

Ar ddiwrnod olaf y tymor cafwyd diwrnod gwobrwyo a chyngerdd i fiarwelio â phlant blwyddyn 6. Dymunwn yn dda i Joanna, Gwenan, Christopher a Mark ym Mhenweddig ac i Elinor, Katie, Alicia, David, Tom, Douglas a Patrick ym Mhen-glais. I ddiweddu'r tymor cafwyd parti yn yr awyr-agored yn y prynhawn.

### Disco

Trefnodd y pwyllgor codi arian ddisco yn Neuadd Capel Bangor ar noson olaf y tymor. Hyfryd oedd gweld y plant wedi gwisgo i fyny yng nghyfnod y saithdegau.

### Llongyfarchiadau

Llongyfàrchiadau i Carole Iloyd, athrawes dosbarth 2, ar ei hapwyntiad yn athrawes yn Ysgol Cwrtnewydd. Mae Miss Lloyd wedi treulio 7 mlynedd hapus yn ein mysg - gwelwn ei heisiau yn fawr iawn.


### Croeso

Croeso cynnes i Rachel Lisk, ein cogyddes newydd, am y tymor.

Hyfryd yw croesawu pedwar plentyn newydd i'r ysgol - Emma i ddosbarth 3 a Ieuan, Tomos a Breeshey i ddosbarth 1. Maent yn reit gartrefol yn ein mysg.

### Cylchgrawn yr Ysgol

Mae cylchgrawn yr ysgol ar werth yn yr ysgol. Pris £2. Diolch yn fawr i'r noddwyr Imej Windows a gyfrannodd mor hael ac i'r hysbysebwyr am eu hysbysebion.



Dosbarth 1 a plant yr ysgol feithrin yn mwynhau picnic tedi yn Ysgol Pen-llwyn

## YSGOL PENRHYN-COCH

Dyma ddechrau blwyddyn newydd ysgol unwaith eto. Edrychwn ymlaen at flwyddyn newydd gyffrous.

### Croeso

Estynnwn groeso cynnes i'n Pennaeth newydd, sef Mr Emyr Pugh-Evans. Hyderwn y bydd yn hapus iawn gyda ni ym Mhenrhyn-coch.

Croeso cynnes hefyd i ddisgyblion newydd yr ysgol, sef - Angharad Davies, Lisa Evans, Mared Pugh-Evans, Wil Galbraith, Jac Horwood, Manon Izri, Josie Richards a Tom Smith i'r Dosbarth Derbyn ac Efan Johnson i Ddosbarth Un.

Wrth groesawu'r disgyblion newydd coflwn hefyd am gyn-ddisgyblion Blwyddyn 6 yr ysgol sydd newydd ddechrau yn ysgolion Penweddig a Phen-glais. Anfonwn ein coflon a'n dymuniadau gorau iddynt o Ysgol Penrhyn-coch.

### Gweithgareddau'r haf


Edrychwn yn ôl gan goflo hwyl y tripiau ysgol! Aeth y babanod ar y trên i'r Borth cyn cerdded i'r Anifeilfa. Terfynwyd y dydd ar y traeth cyn dal y trên yn ôl i Aberystwyth. Caf yd diwrnod gwerth chweil. Aeth y dosbarthiadau Iau ar y bws i dreulio diwrnod yn Oakwood - diwrnod arall bythgofiadwy! Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a enillodd wobr yn Sioe Penrhyn-coch.



Disgyblion Ysgol Penrhyn-coch yn pasio'r nadroedd o amgylch!



Plant dosbarth 3 Ysgol Pen-llwyn yn mwynhau ar yr Hydro yn Oakwood



Un, dau, tri i ffwrdd, disgyblion Ysgol Penrhyn-coch i'r Anifeilfa

### Diolch

Hoffem drwy gyfrwng y papur bro ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant íy 'noswaith' yn neuadd y pentref ar ddiwedd fy nhymor olaf yn Ysgol Penrhyn-coch. Fe íydd y Uu o atgofion, a'r mwynhad am y noson yn aros yn fy nghof am byth.

Dymunaf bob llwyddiant i'r Prifathro newydd Mr Emyr Pugh-Evans, y staff a'r plant yn y dyfodol.

Ar ran fy nheulu a minnau - diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Alun John

## YSGOLTREFEURIG

### Taith i Fachynlleth

Ar ddiwrnod braf ym mis Gorffennaf, fe aethon ni i gyd fel ysgol ar daith mewn trên i Fachynlleth. Hwn oedd ein hymweliad diwedd tymor, a hyfryd oedd i weld golygfeydd o'r trên am newid. Fe wario'n ni amser yng Nghanolfan Owain Glynd r, yn y parc ac astudio'r dre. Cawsom ddiwrnod arbennig.

### Diwrnod Hwyl yr Urdd

Mi oedd yn ddiwrnod gwyntog i lawr ym Mlaendolau, pan gafodd y disgyblion gyfle i flasu amrywiaeth eang o chwaraeon. Roedd Uwyth o weithgareddau wedi eu trefnu iddynt, a phawb wedi ymuno yn yr hwyl a'r sbri, wrth goflo fod dros wyth o chwaraeon iddynt arbrofi gyda hwy, â arbenigwyr yn eu cynorthwyo. Roedd yr haul yn amlwg yn gryfach na beth oedd pawb wedi tybio, wrth weld wynebau pawb y diwrnod canlynol.

### Sioe Frenhinol

Unwaith eto bu'r disgyblion yn cymryd rhan yng nghystadlaethau Menter Coedwigaeth, sydd yn y Sioe. Llongyfarchiadau i bawb ar eu hymdrechion, ac yn enwedig i'r rhai gafodd Uwyddiant.

Dyma'r canlyniadau:

Babanod: 3ydd - Harry Whalley; cymeradwyaeth - Ellis Walker.

Iau: cymeradwyaeth uchel - Ryan Waters, Gwenllian Davies; cymeradwyaeth - Geraint Jones.

### Pêl-droed

Ar ddiwedd y tymor bu Emma Jones o flwyddyn 3 yn cymryd rhan yng Nghynghrair Pêl-droed Merched. Mi roedd hi wrth ei bodd ac wedi dysgu llawer wrth ymuno â merched o ysgolion Penrhyn-coch, Llanfarian a Thal-y-bont.

Enw fy nhîm oedd "Prostars". Wnes i fwynhau chwarae oherwydd fy mod yn hoffi pêl-droed, a gwnes i lawer o ffrindiau newydd. Enillon ni ddwy gêm a Uwyddais i sgorio gôl!

Emmajones, Bl.4



Harry, Ellis a Thomas o Ysgol Trefeurig ,'u lluniau o goed

### Ffarwelio

Wrth agosáu at ddiwedd y tymor, roedd rhaid ffarwelio â chwech o'n disgyblion a oedd yn symud i'r Ysgolion Uwchradd. Diolch i chi i gyd am eich cyfraniad i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd, a phob hwyl i Lowri, Gwen, Jemima, Kelly, Gwenllian a Roxanne gogyfer â'r dyfodol.

Hefyd, rydym yn dymuno ymddeoliad hapus i un o'n cyd-athrawon yn y clwstwr sef Mr Alun John. Diolchwn iddo ef am yr hyn a wnaeth i ni fel ysgol, ac am ei gyfeillgarwch tuag at yr ysgol - pob hwyl i chi Alun.

Diolchwn hefyd i Mrs Eira Williams, am ei chyfraniad wrth weithio yn yr ysgol, yn ystod y flwyddyn. Rydym yn dra diolchgar iddi am ei harbenigedd a'i chyfeillgarwch i'r ysgol y llynedd, gan obeithio y dewch i'n gweld ni eto cyn **hir!**

Rydym yn dymuno ymddeoliad hapus i Mr Brian Davies, Ysgol Rhydypennau, hefyd. Dymunwn yn dda iawn iddo.



Plant Ysgol Trefeurig ym Machynlleth

## YSGOL RHYDYPENNAU

### CYDNABOD YN DDIOLCHGAR

Ystyriaf ei bod yn ddyletswydd arnaf i gydnabod fy niolchgarwch mwyaf diffuant, i holl staff Ysgol Rhydypennau, Bow Street, ynghyd â phlant, y rhieni a'r cyhoedd am yr holl drefniadau graenus, a'r haelioni a estynnwyd i mi, wrth ymddeol o'r swydd gyfrifol o fod yn Brifathro'r ysgol am 17 o flynyddoedd. Bydd melys fy myfyrdod am yr amser a dreuliais yn y swydd, ac am eich dull bonheddig o gydnabod fy llafur.

J. T. Brian Davies





Lluniau o Farbeciw Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Rhydypennau a agorwyd gan Simon a Shirley Hulme, Canolfan Astuiaethau Rheidol


D J Evans
Cludiant Priodasau





Co *lilnHtátlwcL* eicd *fihíóáai*

Ceir craiid a cherbydau
Am ragor o **fanylion,** cysylltwch
â Selwyn Evaiis, Penrhyii-corh
Ffôn 01970 820249

**DRUID INN**
**Goginan**
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
John a Margaret



Ffôn 880650

CWASANAETH CWALLT
**TEITHIOL**
GAYNOR
**CWALLT CAN CAYNOR**
01970 820 244
**CWASANAETH GWALLT TEITHIOL**

GWESTY
Tynycornel
HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ

Ymwelwcb ni *am* ddewis eang o
brydau bwyd_
cinio dydd Çul traddodiadol
t pnawn Cymreig
cînio fin nos
prydau bar canol dydd a'r bwyr_
bwrcfd i ddau neu fwy - dîm problem!

Betb am fanteisio ar eîn gwaeanaeth
o arlwyaetb allanol?
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

GWYNFOR DAVIES
**flDEILflDYDD**



**fflanteg**
**BOUJ Street**
**Ffon 828531**

# TASG Y TINCER



Wel, mae'r gwyliau ar ben ac mae'n siwr eich bod chi erbyn hyn wedi mynd nôl i'r ysgol - ysgol newydd, athro/athrawes newydd neu wisg ysgol newydd efallai.

Diolch yn fawr i bawb ohonoch a fu'n cystadlu ym mis Mehefin. Daeth nifer fawr iawn o luniau drwy fy mlwch post, ac roedd pob un ohonynt yn lliwgar dros ben. Dyma nhw'r rhai fu'n cystadlu:

Anne Rees-Pritchard, 7 Tregerddan, Bow Street; Aled Owen, Garthllwyfen, Bow Street; Amy Miles, Crefftau Pennau, Bow Street; Joshua Tompkinson, 13 Cae'r Odyn, Bow Street; Stewart Gethin, Ty Maelgwyn, Bow Street; Emily Phillips, 27 Trefaenor, Comins-coch; Connor Carr-Murphy, 17 Tregerddan, Bow Street; Brogen Doyle, 3 St Albans, YBorth; Bethanjones, Maesyglyn, Llandre; loan Lewis, 14 Garregwen, Bow Street; Bethany Mason, 14 Cae'r Odyn, Bow Street; Daniel Waters, Afallon, Bow Street; Victoria Lewis, 1 Garregwen, Bow Street; Mari Harvard, Ty Coch, Capel Dewi; Sarah Ford, Llys Rhyd, Llangorwen; Twm Joseff, 103 Bryncastell, Bow Street; Jacob Billingsley, Dolwar, Dôl-y-bont; Lauren Hughes, 55 Bryncastell, Bow Street; Paul Wright, 22 Cae'r Odyn, Bow Street; Lisa Wyn Morgan, Pant-yr-Haul, Dolau; Serena Evans, Eiddwen, Maes y Garn, Bow Street; Stefifan Owen, 7 Caerfelin, Bow Street; Rhian Pink, Gwarallt, Y Borth; Hannah Perkins, 10 Maes Henllan, Llandre; Elinor Williams, Penweddig, Dolau; Ioan Rhys Evans, Tyn y Coed, Tafolwern, Llanbryn-mair; Bethan Henley, Sunmead, Llandre; Gruffudd Owen Mason, Maes y Coed, Ffwrnais; Joe Williams, 2 The Tannery, Dôl-y-bont; Chloë Coleridge, 40 Heol Aberwennol, Y Borth; Shauna Jones, *44* Bryncastell, Bow Street; Neil Davies, 6 Garregwen, Bow Street.

Enillwyr mis Mehefln yw: Rhian Pink a Brogen Doyle. Hwrê!

Hei - chi blant Penrhyn-coch! Ble'r ydych chi? Beth am roi cynnig arni y mis hwn?

Ydych chi'n adnbod y bachgen enwog yn y Uun sy'n gwisgo gwisg ysgol arbennig? Ie, Harry Potter ar ei ffordd i ysgol Hogwarts! Beth am liwio'r llun?

Bydd dwy wobr y mis hwn fel arfer - un o dan 7 oed am y Uun Harry Potter mwyaf taclus, a'r Uall i blant 7-11 oed am dynnu llun o'ch gwisg ysgol. Neu beth am gynllunio gwisg ysgol newydd?

Coflwch gystadlu, gan ddanfon eich gwaith ataf i erbyn 1 Hydref. Y cyfeiriad, fel arfer, yw: 'Tasg y Tincer', 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE. Gwnewch yn siwr blant fod eich enw a'ch cyfeiriad ar y darn papur.

Enw Oed.

Cyfeiriad

Beth am wneud i ddarllenwyr Tasg y Tincer i chwerthin trwy físoedd tywyll y gaeaf trwy anfon eich hoff jôcs ataf? Fe wna'i gyhoeddi'r rhai gorau bob mis. Dyma rai o fy hoff jôcs i:

| Pa bentref sy'n cyfarth? Bow-wow Street!
| Beth yw hoff ddiod ceiliog? Coc-a-dwdl dwr!
| Pam groesodd Dai'r Draenog y ffordd? Er mwyn gweld ei fflat-mêt!
| Pa bêl-droediwr sy'n chwerthin f yaf? Ryan Giggls!

**Hwyl tan** yr hydref, a phob hwyl ar y Hiwio.



Enillwyr mis Mehefin yw: Rhian Pink a Brogen Doyle. Hwre!


**AR WERTH ER BUDD Y TINCER**


**Troli** fwyd Hostess Imperial

**Cysyllter â'r** Golygydd

**EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH**

**Apeliwn ar unrhyw un sydd â diddordeb mewn Eisteddfod ddod i Neuadd y Penrhyn i Bwyllgor Agored nos lau Hydref 3 am 7.00 Meirwen Jones (Ysg.)**

ÄUJM JEMHIMS




Golwg Enlli, Y Borth
Ffôn: 871744

**Clwb Cymdcìlhasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

**CINID** DYDD **SUL**
PRYDAU **BAR**
PARTÍON
**BWYDLEN** BWYTY
ADLDNIANT

,ÉYBYLLTWOH Â
DARREN A'í S2B992/D771 426 7662
A.R AGUR • b:ju l--r.

CTE

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU

"PLAS BRONGENALT
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013


ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >